

DINAS A SYR CAERDYDD CITY AND COUNTY OF CARDIFF

COUNCIL: 25 MEHEFIN 2015

CYNNIG CABINET

EITEM AGENDA: 9

ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL AR GYNLLUN YR IAITH GYMRAEG I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG 2014-2015

Rheswm dros yr Adroddiad hwn

1. Cymeradwyo a chytuno ar gynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun yr Iaith Gymraeg 2014-15 cyn ei gyflwyno i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cefndir

2. Mae'r Cyngor yn cydnabod, fel Prifddinas, fod Caerdydd yn cynrychioli Cymru ac mae wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg drwy hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg a gwella ei gapasiti i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Mae Cynllun yr Iaith Gymraeg yn dangos sut fydd y Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiad hwn.
3. Yr adroddiad yw'r sail ffurfiol i fonitro cydymffurfiaeth â Chynllun Iaith Gymraeg statudol y Cyngor. Y mae'r adroddiad, a gynhelir bob blwyddyn, yn rhoi darlun clir o'r cynnydd a wnaed yn 2014-15, yn ogystal â nodi unrhyw feysydd i wella.

Materion

4. Cwblhawyd cynllun monitro Cynllun yr Iaith Gymraeg i fodloni gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
5. Mae angen i'r Cabinet roi ei gymeradwyaeth fel y gall yr adroddiad fwrw ymlaen i'r Cyngor cyn cael ei dderbyn gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg o fewn y terfynau amser gofynnol. Rhaid i'r Cyngor gyflwyno adroddiad dwyieithog a gymeradwyir i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg erbyn 30 Mehefin 2015 a chyhoeddi'r adroddiad ar ôl hynny. Rhagwelir mai hon fydd y flwyddyn adrodd olaf ar y fformat presennol gan y bydd trefniadau adrodd yn newid pan ddaw'r safonau i'r iaith Gymraeg i rym yn ddiweddarach eleni.
6. Er mwyn paratoi at y safonau, mae Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyieithog wedi gofyn am adroddiad cynnydd gan bob cyfarwyddiaeth ar ei gwaith i fodloni'r safonau a gynigir. Caiff y Cyngor ei hysbysiad cydymffurfiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 22 Mehefin, ac ar ôl

cyfnod ymgynghori caiff y cyngor gyfres o safonau a fydd yn disodli'r trefniadau presennol o ran cynlluniau iaith Gymraeg. Rhagwelir mai hon fydd y flwyddyn adrodd olaf ar y fformat presennol gan y bydd trefniadau adrodd yn newid pan ddaw'r safonau i'r iaith Gymraeg (dan Fesur y Gymraeg [Cymru] 2011) i rym yn ddiweddarach eleni.

Rhesymau dros yr Argymhellion

7. Y mae'n ofynnol cydymffurfio â Chynllun yr Iaith Gymraeg, ac mae monitro cynnydd y Cyngor yn ei erbyn yn ffordd effeithiol o sicrhau bod targedau'n cael eu bwrw.

Goblygiadau Cyfreithiol

8. Mae Cynllun yr Iaith Gymraeg yn ofynnol dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Disodlwyd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
9. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cyflwyno system newydd o reoleiddio drwy 'safonau' sy'n nodi sut y dylai sefydliad ddefnyddio'r Gymraeg. Nes i'r 'safonau' ddod i rym dylai sefydliadau barhau i weithredu eu 'Cynllun Iaith Gymraeg' a fydd yn dal i gael ei fonitro/arolygu gan Gomisiynydd y Gymraeg.
10. Disgwylir i'r 'Safonau' gael eu gorfodi erbyn mis Medi eleni;
11. Cymeradwyodd y Cynllun Reoliadau ar 24 Mawrth 2015 (Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015) sy'n nodi safonau o ran Ymddygiad Cynghorau Sir (a sefydliadau eraill). Mae'r canlynol yn amlinellu amserlen weithredu:

Ebrill – Mehefin 2015 – bydd Comisiynydd y Gymraeg yn paratoi hysbysiadau cydymffurfio unigol i bob sefydliad.

22 Mehefin 2015 – Cyfnod ymgynghori'n dechrau ar gynnwys yr hysbysiadau cydymffurfiaeth (a.47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)

20 Gorffennaf – Cyfnod ymgynghori yn dod i ben

Medi 2015 – disgwylir i Gomisiynydd y Gymraeg gyflwyno hysbysiad cydymffurfiaeth i'r Awdurdod (a.44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)

Goblygiadau Ariannol

12. Nid oes goblygiadau ariannol yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Os bydd angen gweithredu, byddai angen dod o hyd i gostau cysylltiedig o'r gyllideb bresennol.

CABINET PROPOSAL

Council is recommended to

Argymhellir i'r Cabinet gymeradwyo Adroddid Monitro'r Iaith Gymraeg (a atodir fel Atodiad A) a chytuno i'r adroddiad gael ei ystyried yng nghyfarfod y Cyngor cyn ei gyflwyno i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

THE CABINET
11 Mehefin 2015

Atodir yr Atodiadau canlynol:

Atodiad A Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun yr Iaith Gymraeg 2014 – 15.



Cynllun yr Iaith Gymraeg
Adroddiad Monitro Blynyddol i'r
Comisiynydd Iaith

2014 - 2015

Cynnwys	Tudalen
Cyflwyniad	4
1. Cydymffurfio â Chynllun yr Iaith Gymraeg – Amserlen ar gyfer Gwella	6
2. Gwasanaethau Rheng Flaen yr iaith Gymraeg <ul style="list-style-type: none"> i. Partneriaeth Caerdydd ii. Dangosydd yr iaith Gymraeg 2 iii. Dangosydd yr iaith Gymraeg 6 iv. Mwy na geiriau 	27
3. Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun	32
4. Sgiliau Ieithyddol: Cymharu Anghenion a Chapasiti Gwasanaethau	36
5. Prif-ffrydio	38
6. Dadansoddi Perfformiad yn ôl Blaenoriaeth a Tharged	44
7. Cyhoeddi Gwybodaeth am Berfformiad	44

8. Gwybodaeth Ychwanegol	45
9. Manylion Cyswllt	51
Atodiad I – Cynllun Gweithredu ‘Mwy na Geiriau’ 2014/15 Iechyd a Gofal Cymdeithasol	52
Atodiad II - Aseidiadau Swyddi Rheng Flaen	59
Atodiad III - Hyfforddiant yr iaith Gymraeg	61
Atodiad IV – Sgiliau’r iaith Gymraeg	63
Atodiad V – Cydlynwyr yr Iaith Gymraeg – Hyrwyddwyr	64
Atodiad VI – Adroddiadau Boddhad Cwsmeriaid C2C	66

Cyflwyniad

Cafodd trydydd Cynllun yr Iaith Gymraeg Cyngor Dinas Caerdydd ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 1 Gorffennaf 2009.

Fel Prifddinas mae'r Cyngor yn cydnabod bod Caerdydd yn cynrychioli Cymru ac mae wedi ymrwmo i sicrhau cydraddoldeb rhwng ieithoedd drwy hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg a gwella ei gapasiti i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Mae Cynllun yr Iaith Gymraeg yn dangos sut fydd y Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiad hwn.

Er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg ac anghenion trigolion Cymraeg eu hiaith yn cael eu hystyried gan yr holl gyfarwyddiaethau, a hefyd sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, bu'r meysydd canlynol ar gyfer gwella yn hanfodol:

- Sefydlu grŵp Cydlynwyr yr Iaith Gymraeg, sy'n cynnwys un cynrychiolydd o bob cyfarwyddiaeth, i drafod a delio â materion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn ogystal â hysbysu staff yn eu cyfarwyddiaethau o ofynion y Cynllun.
- Creu grŵp Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg newydd yn 2010 sy'n cynnwys un cynrychiolydd, Rheolwr Gweithredol neu uwch, o bob cyfarwyddiaeth i hyrwyddo dwyieithrwydd, cefnogi Cydlynwyr a chodi ymwybyddiaeth o Gynllun yr Iaith Gymraeg yn eu cyfarwyddiaethau.
- Ail-frandio uned yr iaith Gymraeg fel 'Caerdydd Ddwyieithog' gyda phwyslais newydd ar gynnig rôl ymgynghorol i sefydliadau eraill, tra'n cyfrannu at hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth bellach o'r iaith Gymraeg ledled y ddinas trwy drefniadau cydweithio gwell.
- Cynnig dewis iaith a gwasanaeth o'r un safon ragorol i ddinasyddion sy'n siarad Cymraeg a Saesneg trwy ganolfan gyswllt C2C.
- Sicrhau bod Amserlen y Cynllun ar gyfer Gweithredu yn rhan o System Wella Caerdydd (CIS) sydd wedi chwarae rôl allweddol o ran sicrhau bod Cynllun yr Iaith Gymraeg diwygiedig a Strategaeth Gorfforaethol Sgiliau Iaith Gymraeg 2009-2012 yn cael eu gweithredu a'u prif ffrydio'n llwyddiannus.
- Sefydlu Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyieithog i ddatblygu'r agenda Caerdydd Ddwyieithog.
- Ym mis Hydref 2014, rhyddhaodd Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg ac Uwch Reolwr y gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol rywfaint o oriau rheoli o fewn y Gyfarwyddiaeth i ganiatáu i Gydlynwyr yr Iaith Gymraeg weithio ar weithredu Strategaeth 'Mwy na Geiriau' y Llywodraeth sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol o ran y Cynllun Gweithredu 3 blynedd.

- Datblygiad arfaethedig Canolfan Gymraeg yng nghanol y ddinas.



Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i wireddu ein huchelgais o ddatblygu prifddinas gwbl ddwyieithog i Gymru. Mae'r adroddiad yn amlinellu nifer o gamau gweithredu ar gyfer y dyfodol ac yn rhoi gwybod am gynnydd hyd yn hyn.

Cytunwyd ar yr Adroddiad Monitro Blynyddol ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar **25 Mehefin 2015** cyn ei gyflwyno i'r Comisiynydd Iaith erbyn y dyddiad cau o 30 Mehefin 2015.

Mae'r adroddiad ar gael yn ddwyieithog i'w lawrlwytho ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog

Ni fydd teitlau swyddogion a gwasanaethau yn y cynllun gweithredu yn adlewyrchu'r strwythur cyfredol gan fod y cynllun gweithredu wedi'i gymeradwyo yn 2009 ac felly mae'n adlewyrchu teitlau swyddogion a gwasanaethau ar yr adeg y cafodd ei gymeradwyo. Gan fod yr Amserlen ar gyfer Gwella wedi'i gymryd o Gynllun Statudol at ddiben yr Adroddiad, ni allwn newid y teitlau, nac unrhyw elfen arall o'r Cynllun heb gymeradwyaeth y Comisiynydd Iaith. Dyma'r flwyddyn adrodd olaf yn y dull hwn gan fod safonau'r iaith Gymraeg yn dod i rym yn ddiweddarach eleni, ac o ganlyniad bydd gennym ddull adrodd newydd ar waith flwyddyn nesaf gyda chynllun gweithredu newydd sy'n adlewyrchu'r strwythur a theitlau'r swyddogion ar y pryd.

Cydymffurfio â Chynllun yr Iaith Gymraeg – Amserlen ar gyfer Gwella				
MESURAU	AMSER	CYFRIFOLDEB	CYNNYDD	CWBLHAWYD
1. DANGOSYDDION YR IAITH GYMRAEG				
<p><u>Dangosydd 1 yr IG</u> Monitro ac adrodd yn flynyddol ar nifer a % y bobl trydydd parti a gafodd eu monitro sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun hwn yn y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. gwasanaethau gofal ii. gwasanaethau ieuenctid a hamdden iii. darpariaeth cyn-ysgol 	Llunio Cynllun Monitro strwythuredig ar gyfer pob gwasanaeth a restrir erbyn mis Medi 2009 yna monitro ac adrodd yn flynyddol.	Prif Swyddogion perthnasol ar y cyd â Swyddog yr Iaith Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> i Gwasanaethau Gofal ii (a) Contractau'r gwasanaeth ieuenctid ii (b) Contractau'r gwasanaeth hamdden iii Darpariaeth cyn-ysgol <p>I gael manylion llawn gweler adran 3. Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun (tudalen 30).</p> <p>Ar gyfer Cynllun Gweithredu 'Mwy na Geiriau' 2014/15 lechyd a Gofal Cymdeithasol gweler Atodiad I</p>	
<p><u>Dangosydd 2 yr IG</u> Nodi gweithleoedd a swyddi lle mae'r gallu i siarad neu ysgrifennu yn Gymraeg yn ofyniad hanfodol neu ddymunol (gan ddefnyddio'r Strategaeth Sgiliau Iaith a'r Offeryn Asesu).</p>	Ebrill 2015	Pob Prif Swyddog ar y cyd â Swyddog yr Iaith Gymraeg	<p>Mae dros 975 o swyddi wedi'u hasesu yn y flwyddyn ariannol gyfredol, o'r rhain caiff 111 o swyddi (11%) eu dynodi'n Gymraeg Hanfodol yn unol â'r Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Corfforaethol. (gweler Atodiad II). Cafodd y Strategaeth Sgiliau Iaith Gorfforaethol ddiwygiedig ei chymeradwyo gan y Cabinet ar 13 Mawrth 2014. Cafodd copi o'r strategaeth sy'n cynnwys amserlenni diwygiedig, mesurau, ac offeryn asesu ieithyddol wedi'i ddiweddarau hefyd ei gynnwys yn ymateb y Cyngor i'r ymchwiliad safonau ym mis Ebrill 2014. Mae'r asesiadau ieithyddol yn broses barhaus a byddwn yn parhau i asesu timau yn 2015-16.</p>	

<p><u>Dangosydd 3 yr IG</u> Creu rhaglen archwilio flynyddol o feddalwedd a systemau i sicrhau bod materion yr iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o holl brojectau e-Lywodraeth.</p>	<p>Medi 2009</p>	<p>Pob Prif Swyddog ar y cyd â Swyddog yr Iaith Gymraeg</p>	<p>Caiff gofynion yr iaith Gymraeg eu hystyried yn weithredol fel rhan o unrhyw friff project neu fandad project newydd fel rhan o'r datganiad gofynion – dyma fu'r achos am beth amser nawr.</p> <p>Bydd TGCh yn parhau i gynghori cwsmeriaid ar eu cyfrifoldeb i gynnig deunydd Cymraeg ar gyfer yr holl brojectau sy'n ymwneud â chwsmeriaid yn ystod y cam briffio o'r holl brojectau TG ond cyfrifoldeb y cwsmeriaid yw penderfynu p'un ai a oes angen agweddau dwyieithog ar unrhyw system newydd arnynt ai peidio ar ôl derbyn y cyngor hwn felly eu cyfrifoldeb nhw yw bodloni eu hunain eu bod yn diwallu'r mesur.</p>	
<p><u>Dangosydd 4 yr IG</u> Monitro nifer a % y staff sydd wedi cael hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel cymhwyster penodol a nifer a % y staff sydd wedi cael Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith.</p>	<p>Cynhyrchu adroddiad llawn erbyn Ebrill bob blwyddyn i'w roi yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Bwrdd yr Iaith.</p>	<p>Prif Swyddog Pobl a Datblygu Trefniadaeth gyda Swyddog yr Iaith Gymraeg.</p>	<p>Caiff nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn Hyfforddiant yr Iaith Gymraeg a Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith eu monitro'n agos a chaiff cofnodion unigol eu cadw ar DigiGov. Gweler Atodiad III ar gyfer dadansoddiad o staff sydd wedi mynychu'r cyrsiau hyn.</p>	

<p><u>Dangosydd 5 yr IG</u> Nifer a % y staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl</p> <ol style="list-style-type: none"> i. gwasanaeth ii. gradd swydd iii. gweithle 	<p>Cynhyrchu adroddiad llawn erbyn Ebrill bob blwyddyn i'w roi yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Bwrdd yr Iaith.</p>	<p>Prif Swyddog Pobl a Datblygu Trefniadaeth</p>	<p>Mae cyfanswm o 4,546 o staff wedi dilysu eu cofnodion ar y system DigiGov. O'r rhain mae 221 aelod o staff wedi nodi fod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynrychioli 4.86% o'r rhai sydd wedi cofrestru ar y system.</p> <p>Mae manylion y gwasanaeth, gradd swydd a lleoliad yr aelodau hyn o staff i'w gweld yn Atodiad IV</p>	
<p><u>Dangosydd 6 yr IG</u> Monitro nifer a % y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Iaith a nifer a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â'r safonau corfforaethol</p>	<p>Ebrill 2009 a bob mis Ebrill ar ôl hynny yn barod ar gyfer yr Adroddiad Monitro Blynyddol</p>	<p>Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol</p>	<p>Yn ystod 2014/15, derbyniwyd cyfanswm o 24 o gwynion mewn perthynas â Chynllun yr Iaith Gymraeg. Y ganran o gwynion yn gysylltiedig â Chynllun yr Iaith Gymraeg mewn perthynas â'r holl gwynion a dderbyniwyd yw 1% (2354). Bydd yr Adroddiad Cwynion Corfforaethol Blynyddol ar gael yn hydref 2015.</p>	
<p>2. CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU</p>				
<p>Asesu effeithiolrwydd yr Offeryn Integreiddio Polisi a'r Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer prif ffrydio'r iaith Gymraeg i bolisiau, cynlluniau a strategaethau corfforaethol ac allweddol.</p>	<p>Archwiliad dwywaith y flwyddyn. Archwiliad cyntaf ym mis Medi 2009</p>	<p>Prif Swyddog Polisi a Swyddog yr Iaith Gymraeg</p>	<p>Mae'r Offeryn Integreiddio Polisi wedi'i ddatblygu'n Offeryn Sgrinio Polisi Statudol i adlewyrchu'r cyd-destun polisi esblygol.</p> <p>Gweler adran 5. Prif-ffrydio (tudalen 34) am fanylion llawn.</p>	

<p>Paratoi rhestr o bartneriaid allweddol, gwirio eu bod yn ymwybodol o'r Cynllun a defnyddio geiriau priodol a phenodol mewn contractau a dogfennau tendro wrth eu hadnewyddu neu eu cyflwyno.</p>	<p>Rhestr erbyn Medi 2009. Gwirio un partner allweddol bob mis ar ôl hynny.</p>	<p>Pob Prif Swyddog ar y cyd â Swyddog yr Iaith Gymraeg</p>	<p>Mae gan Gyngor Dinas Caerdydd nifer o gontractau eraill ar waith gyda chontractwyr neu sefydliadau trydydd parti ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae dadansoddiad o'n Porth Caffael wedi amlygu bod tua 11 o gontractau wedi'u dyfarnu i ddarparu 'Gwasanaethau' ar ran y Cyngor. Dim ond contractau sy'n ymwneud â gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd sy'n cael eu cynnwys.</p> <p>Byddai'r contractau/trefniadau fframwaith newydd wedi defnyddio cwestiynau cyn cymhwyso/dethol o gyfres o gwestiynau SQuID Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys nifer o gwestiynau'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Byddai'r cwestiynau ond yn cael eu gofyn pan fo contract ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol i'r cyhoedd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Disgrifiwch eich profiad a/neu ddull cyffredinol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau bod gofynion siaradwyr Gymraeg yn cael eu diwallu, fel y nodir yn neddfwriaeth yr iaith Gymraeg. • Ydych chi wedi cael contract wedi'i derfynu a/neu wedi cael gwybod am dor-cytundeb neu dor-cytundeb posibl am resymau'n ymwneud â gofynion yr iaith Gymraeg o fewn y 3 blynedd ddiwethaf? <p>Caiff cymalau tebyg i'r canlynol eu cynnwys mewn contractau a baratoir ar ran y Cyngor gan Wasanaeth Cyfreithiol y Cyngor a chaiff y tîm contractau cyfreithiol eu hatgoffa o'r angen i gynnwys cymal o'r fath:</p> <p><i>'Yn ystod y Contract ac wrth ddarparu gwasanaethau, bydd y Contractwr yn cydymffurfio â gofynion:</i></p> <p><i>a) Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod; a</i></p> <p><i>b) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 pan ddaw</i></p>	
---	---	---	---	--

			<p><i>darpariaethau'r Mesur i rym ac i'r graddau y mae'n ymwneud â darparu'r Gwasanaethau.'</i></p> <p>Fel y nodir yn y cynnydd ar gyfer 2013 – 14 o ran gweithdrefnau monitro parhaus ar gyfer contractau rydym yn cynnal cyfarfodydd adolygu contractau rheolaidd gyda chyflenwyr. Mae amlder y cyfarfodydd hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau megis gwerth y contract a'r risg, ond yn gyffredinol maent yn amrywio o bob mis i bob chwarter.</p> <p>Gall unrhyw faterion mewn perthynas â pherfformiad y contract gael eu trafod yn y fforwm hwn a gall unrhyw faterion o ran darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg gael eu hamlygu a'u trin yn briodol.</p>	
Sicrhau bod y Cynllun Grant Corfforaethol yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.	Archwiliad Medi 2010	Prif Swyddog Strategaeth a Menter a'r holl Brif Swyddogion	Mae cymorth a chyngor wedi'i gynnig a'i ddarparu i Swyddogion Grant Gwasanaeth mewn perthynas â chydymffurfio â Chynllun Iaith y Cyngor. Mae fersiynau Cymraeg diweddar ar gael ar CIS ar gyfer pob dogfen grant corfforaethol berthnasol. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith yn feunyddiol drwy sicrhau bod cyfieithiadau Cymraeg o lythyrau ar gael yn brydlon yn ôl y gofyn.	
3. YMWNEUD Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG				
Sefydlu a chynnal cronfa ddata gorfforaethol o ddewis iaith cwsmeriaid i'w defnyddio gan yr holl wasanaethau	Ebrill 2012	Prif Swyddog TG gyda Phrif Swyddog Pobl a Datblygu Trefniadaeth, ar y cyd â'r holl Brif Swyddogion a Swyddog yr Iaith Gymraeg	<p>Cafodd Glasbrint dylunio manwl ar gyfer y System Rheoli Perthnasau Cwsmeriaid (CRM) ei gwblhau'n llwyddiannus ym mis Chwefror 2014. Mae'r datrysiad a ddyluniwyd yn ystod y Glasbrint yn nodi'n glir sut y gall marcwyr megis dewis iaith gael eu cadw i gwsmeriaid a sut y gall cronfa ddata cwsmeriaid gorfforaethol unigol gael ei datblygu, ei phoblogi a'i chynnal wrth i'r CRM gael ei rhoi ar waith ym mhob rhan o'r Sefydliad.</p> <p>Bydd cam cyntaf y CRM yw mynd yn fyw ym mis Medi 2015 yn y Ganolfan Gyswilt (ar y ffôn a dros e-bost) a Hybiau</p>	

			<p>Cymunedol (wyneb yn wyneb). Wrth i gwsmeriaid gysylltu â'r Cyngor trwy'r sianeli hyn, caiff eu dewis iaith ei nodi yn eu cofnod cwsmer. Yn ogystal â hyn, fel rhan o'r broses o fynd yn fyw, gall cronfeydd data dewis iaith presennol a gedwir yn y Cyfarwyddiaethau ym mhob rhan o'r Sefydliad gael eu rhesymoli ac o bosibl eu mewnbynnu i gronfa ddata'r CRM. Yn ystod y cam cyntaf bydd y CRM (ac felly'r gronfa ddata cwsmeriaid, gan gynnwys dewis iaith) ond yn cyflawni'r hyn y mae C2C yn ei wneud ar hyn o bryd. Caiff map manwl i'w gyflwyno ym mhob rhan o'r sefydliad ei lunio yn ystod y misoedd nesaf.</p> <p>Yn y tymor canolig (2-3 blynedd) wrth i CRM SAP gael ei chyflwyno i Gyfarwyddiaethau ym mhob rhan o'r Sefydliad ac wrth i ddatrysiad Rheoli Data gael ei nodi, caiff cronfa ddata gorfforaethol o gwsmeriaid ar gyfer y sefydliad cyfan ei chreu a fydd yn rhoi golwg unigol o'r cwsmer.</p>	
Rhoi canllawiau ar gyfieithu i bob Gwasanaeth	Cyhoeddi canllawiau newydd pan gaiff y Cynllun ei lansio	Swyddog yr Iaith Gymraeg	<p>Rhoddir canllawiau cyfieithu trwy erthyglau newydd ar 'Your Inbox' yn ogystal â thrwy gydlynwyr yr iaith Gymraeg. Caiff canllawiau hefyd eu hanfon trwy friff "Materion Cymraeg" misol sy'n amlinellu'r datblygiadau diweddaraf yn gysylltiedig ag agenda'r iaith Gymraeg, gwybodaeth am gyrsiau, cyngor a chrynodeb o gwynion yn erbyn y Cynllun Iaith. Erthyglau yn 2014-15 mewn perthynas â'r angen i flaen-gynllunio cyn unrhyw waith cyfieithu mawr. Mae'r canllawiau cyfieithu hefyd ar gael ar dudalen mewnwyd Caerdydd Ddwyeithog. Gan fod y canllawiau cyfieithu cyfredol wedi bod ar waith am nifer o flynyddoedd mae'r mwyafrif o gyfarwyddiaethau yn gyfarwydd â'r broses o wneud cais am gyfieithiadau.</p>	
Paratoi a rhoi rhaglen ar waith ar gyfer darparu meddalwedd iaith Gymraeg a deunyddiau	Rhaglen wedi'i sefydlu erbyn mis Medi 2009. I'w rhoi	Rheolwr Gwasanaeth TGCh gyda phob rheolwr a	<p>Mae pob aelod o staff sy'n gallu defnyddio Rhwydwaith TGCh y Cyngor yn derbyn meddalwedd sydd ar gael yn Gymraeg yn awtomatig. Felly nid ydym yn cofnodi ceisiadau unigol ar gyfer y feddalwedd. Yr unig wybodaeth y byddwn</p>	

<p>cymorth i'r staff presennol a staff newydd fel y nodir yn Adran 3.1 o'r Cynllun</p>	<p>ar waith ar unwaith</p>	<p>Swyddog yr Iaith Gymraeg</p>	<p>yn ei chofnodi yw ceisiadau unigol ar gyfer meddalwedd cyfieithu Gymraeg, fodd bynnag ni fyddai hyn yn adlewyrchiad cywir o'r feddalwedd sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr awdurdod.</p> <p>Rydym yn parhau i gyflwyno meddalwedd sydd ar gael yn Gymraeg drwy Windows 7 ac Office 2010 mewn perthynas â'r holl systemau / ceisiadau newydd, un ai ar gyfrifiaduron personol neu drwy ein dull 'cleient tenau'.</p> <p>Mae Cysgliad ar gael i bob aelod o staff sydd â chyfrifiadur personol fel rhyngwyneb bwrdd gwaith, a hysbyseb y ffaith ei fod ar gael yn aml yn y Cylchlythyr Materion Gymraeg ac erthyglau yn 'Your Inbox'. Gall staff ofyn am gopi trwy'r Ddesg Gwasanaeth.</p>	
<p>Sicrhau bod y canlynol yn dilyn Cynllun yr Iaith Gymraeg:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Ymatebion ffonio'n ôl ii. Caiff pob galwad Gymraeg ei chyfeirio at Swyddogion sy'n siarad Gymraeg iii. Cyfarchion dwyieithog ar rifau sy'n cael eu hysbysebu 	<p>Monitro unwaith y flwyddyn trwy'r ymarfer Siopwr Cudd</p>	<p>Uned yr Iaith Gymraeg a Menter Caerdydd</p>	<p>Cafodd canllawiau i staff ar ateb galwadau Gymraeg eu diweddarau ym mis Chwefror 2015 ac maent ar gael ar y dudalen mewnruyd Gymraeg. Cafodd y canllawiau hefyd eu cylchredeg i staff trwy gydlynwyr yr iaith Gymraeg a chaiff hysbysiadau atgoffa eu rhoi yn y briff 'Materion Gymraeg' misol. Cynhaliodd Menter Caerdydd ymarfer siopwr cudd ar ran y cyngor ym mis Medi a Hydref 2015. Yn dilyn yr ymarfer hwn cafodd y canlyniadau llawn eu hanfon ymlaen at yr holl gyfarwyddwyr, a chanllawiau perthnasol ar alwadau eu rhoi i staff. Cafodd staff eu hatgoffa o'r angen i gyfarch y cyhoedd yn ddwyieithog, ac maen nhw hefyd wedi cael gwybod am y safonau iaith Gymraeg drafft sy'n ymwneud â galwadau. Cafodd y safonau rheoleiddio drafft eu cylchredeg i'r cydlynwyr a'r hyrwyddwyr ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi. Rhoddodd Rheolwr Gweithredol Caerdydd Ddwyieithog gyflwyniad ar heriau'r safonau yng nghyfarfod yr Uwch Dîm Rheoli ar 9 Medi 2014.</p>	
<p>Darparu canllaw i staff ar gynnal cyfarfodydd</p>	<p>Cyhoeddi canllaw Medi</p>	<p>Swyddog yr Iaith Gymraeg a</p>	<p>Mae canllawiau ar gyfarfodydd ar gael ar dudalen mewnruyd Caerdydd Ddwyieithog. Ymatebodd pob</p>	

<p>dwyieithog a sicrhau bod y gyfarwydddeb yn cael ei dilyn.</p>	<p>2009. Archwiliadau gwasanaethau i gael eu cynnal bob 6 mis.</p>	<p>Chydlynwyr yr Iaith Gymraeg</p>	<p>cyfarwyddiaeth i'r rheoliad safonau drafft a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru cyn i'r hysbysiad cydymffurfio gael ei gyhoeddi (fe'i disgwylir yn haf 2015). Mae pob cyfarwyddiaeth yn ymwybodol o sefyllfa gyfredol y Cyngor o ran cynnal cyfarfodydd dwyieithog dan ei gynllun iaith ac yn ymwybodol o'r posibilid i hyn newid dan y safonau iaith. Cafodd AD eu briffio gan Caerdydd Ddwyieithog ym mis Ionawr 2015 ar y rheoliadau safonau drafft a'r angen posibl i gynnal yr holl gyfarfodydd mewnol yn gysylltiedig â chyflogeion (e.e. disgyblu, cwynion) drwy gyfrwng y Gymraeg os gofynnir am hynny. Mae cynllun gweithredu AD wedi'i greu ar gyfer yr holl safonau drafft nad ydynt yn arfer cyfredol dan ein cynllun iaith.</p> <p>Rhoddir hefyd ganllawiau ar gyfarfodydd i staff o ran cynnal cyfarfodydd dwyieithog trwy'r sesiynau Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb a diweddariadau o ran Cyfarfodydd Gwella Busnes Gwasanaethau (BIMS).</p> <p>Mae gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob un o gyfarfodydd y cyngor llawn.</p>	
<p>Sicrhau bod pob gwybodaeth a gaiff ei llunio'n benodol ar gyfer y cyhoedd (yn unol ag Atodiad A) yn ymddangos yn ddwyieithog ar brif wefan y Cyngor</p>	<p>Archwiliadau blynyddol o gynnwys pob gwasanaeth. Archwiliad cyntaf ym mis Ebrill 2010</p>	<p>Pob Prif Swyddog</p>	<p>Cafodd gwefan ddiwygiedig Cyngor Dinas Caerdydd ei lansio ym mis Mai 2014 gyda'r holl gynnwys wedi'i gyhoeddi drwy system rheoli cynnwys newydd SharePoint. Cwblhawyd y gwaith datblygu gan dîm y wefan a TGCh i sicrhau y gellid trin y ddwy iaith yn gyfartal. Cafodd egwyddorion cynnwys y we eu llunio i ymdrin â'r broses o lywodraethu cynnwys y we yn y dyfodol – mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol a nodir yng Nghynllun yr Iaith Gymraeg. Cafodd yr egwyddorion hyn eu cymeradwyo gan fwrdd project Diwygio'r We. Mae'r prif bwyntiau fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r holl ddeunydd yn gwbl ddwyieithog ac yn diwallu 	

			<p>safon Nod Crystal yr ymgyrch Saesneg Syml a'r polisi Cymraeg Clir.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae angen i ddogfennau a ychwanegir i'r wefan fel ffeiliau megis Word / PDF gael eu cyfieithu i'r Gymraeg fel y nodir yng Nghynllun yr Iaith Gymraeg. <p>Mae tîm y we yn ymwybodol bod rhywfaint o systemau a cheisiadau 3ydd parti o'r gorffennol yn bodoli ar y wefan yn Saesneg yn unig. Ni chafodd y rhain eu cynnwys yn y project diwygio'r we. Rydym yn gweithio gyda chyfarwyddiaethau i ymchwilio i ddatrysiadau i sicrhau bod pob system yn ddwyieithog yn y dyfodol.</p> <p>Yn ystod 2014/15 caffaelodd y Cyngor y system rheoli pwyllgorau modern.gov yn Gymraeg a Saesneg i wella mynediad y cyhoedd i adroddiadau a phenderfyniadau'r cyngor drwy'r wefan. Fel rhan o'r project bydd y cyngor yn gwneud defnydd llawn o ddwyieithrwydd modern.gov wrth wneud dogfennau Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â gwneud pecynnau dogfennau dwyieithog cyfunol ar gael i 75 aelod etholedig ac aelodau'r cyhoedd.</p>	
<p>Mewn achosion lle canfyddir deunyddiau/tudalennau Saesneg yn unig, creu cynllun gwella gwasanaeth gan gynnwys amserlen cyfieithu</p>	<p>Cysylltu â chynlluniau busnes gwasanaethau</p>	<p>Pob Prif Swyddog</p>	<p>Tîm canolog y we yn y Gwasanaethau Cwsmeriaid sy'n derbyn yr <u>holl</u> geisiadau ar gyfer cynnwys ychwanegol / wedi'i olygu i'r safle corfforaethol. Fel rhan o broses gyhoeddi'r tîm caiff yr holl gynnwys ei adolygu a'i anfon i'w gyfieithu trwy'r ffurflen gais ar y fewnwyd i dîm Caerdydd Ddwyieithog. Mae rhai chyfarwyddiaethau yn mynnu cael gwybodaeth wedi'i chyhoeddi yn Saesneg yn unig oherwydd anghenion busnes / cyhoeddus (gyda chyfieithiad i ddilyn). Mae tîm y we yn parhau i gyflwyno'r datganiad canlynol i chyfarwyddiaethau i esbonio'n glir eu cyfrifoldebau o ran cael cynnwys dwyieithog ar y we a'u hatebolrwydd pe cyflwynid</p>	

		<p>dirwy:</p> <p><i>“Yn unol â chynllun iaith statudol y Cyngor, dylai'r holl wybodaeth (gan gynnwys dogfennau y gellir eu lawrlwytho) fod yn gwbl ddwyieithog.</i></p> <p><i>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i drin y ddwy iaith yn gydradd ac i sicrhau bod fersiynau Saesneg/Cymraeg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd er mwyn peidio â rhoi siaradwyr Cymraeg dan anfantais. Os caiff dogfennau eu cyhoeddi heb fersiwn Gymraeg (neu Saesneg) byddai'r gwasanaeth yn torri'r cynllun iaith. Caiff unrhyw gwynion a dderbynnir eu hanfon i reolwyr gwasanaethau i ymateb iddynt.</i></p> <p><i>Cofiwch hefyd y daw cyfres newydd o safonau iaith i rym y flwyddyn nesaf a fydd yn rhoi'r pŵer i'r comisiynydd iaith gyflwyno dirwyon i awdurdodau lleol am fynd yn erbyn y safonau hyn.</i></p> <p><i>Cynllun yr Iaith Gymraeg</i> <i>3.5 DELIO Â'R CYHOEDD – MATERION ERAILL</i> <i>Bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd yr holl ddeunydd a gyhoeddir yn benodol ar gyfer aelodau o'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth ar unrhyw wefan y Cyngor neu unrhyw wefan a ddylunnir neu a gefnogir ganddo yn ddwyieithog. Bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau y bydd yr holl ymatebion awtomatig yn cael eu darparu'n ddwyieithog.</i></p> <p><i>Canllawiau ar y dogfennau a ddylai fod yn ddwyieithog</i> <i>Categori A – Cwbl Ddwyieithog</i> <u><i>Gwefannau a thudalennau gwe</i></u> <i>Mae'n rhaid i bob tudalen Saesneg gael tudalen gyfatebol yn Gymraeg, gyda botwm gwe-lywio iaith, a bydd yn cynnwys unrhyw ddogfennaeth berthnasol y gellir ei lawrlwytho, ffurflenni adborth</i></p>	
--	--	--	--

			<i>ac ati yn unol â'r polisi hwn</i>	
Cynnal cyfeiriadur canolog o'r staff sy'n siarad Cymraeg a swyddogion cyswllt	Parhaus.	Pob Prif Swydddog	<p>Mae cyfeiriadur canolog o'r staff sy'n siarad Cymraeg a swyddogion cyswllt ar gael ar y fewnrwyd. Mae pob cyfarwyddiaeth yn gyfrifol am ychwanegu enwau unrhyw siaradwyr Cymraeg newydd sy'n ymuno â'r awdurdod. Mae 158 o siaradwyr Cymraeg wedi'u rhestru ar y llyfr cyfeiriadau mewnol sydd wedi cytuno i ddelio â chwsmeriaid allanol ac mae pob cyfarwyddiaeth wedi'i chynrychioli. Cafodd erthygl ei chynnwys yn rhifyn Materion Cymraeg 2014 i annog staff i ddiweddarau eu cofnodion a nodi a ydynt yn siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Hefyd mae'r dudalen 'Caerdydd Ddwyeithog' ar fewnrwyd Cyngor Caerdydd yn cynnwys nifer o ddogfennau canllaw i staff gan gynnwys canllawiau ar alwadau, cyfieithu a'r Cynllun Iaith. Ar gyfer canllawiau ffôn mae siart lif o'r broses i helpu staff o bob cyfarwyddiaeth i ddelio â Galwadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithlon (diweddarwyd Chwefror 2015). Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybod i staff y gallant ddefnyddio'r cyfeiriadur i ddod o hyd i siaradwyr Cymraeg yn eu cyfarwyddiaeth. Mae'r cyfeiriadur a'i opsiwn Siaradwr Cymraeg wedi cael ei ddefnyddio am fwy na 7 mlynedd ac yn ystod yr amser hwnnw mae Cydlynwyr yr Iaith Gymraeg wedi bod hyrwyddo ei fodolaeth i bob aelod o staff yn eu cyfarwyddiaeth yn rheolaidd. Yn fwyaf diweddar cafodd staff eu hatgoffa ym mis Chwefror 2015 yn y briff 'Materion Cymraeg' i ddiweddarau eu manylion a defnyddio'r cyfeiriadur ar gyfer galwadau Cymraeg.</p>	
Defnyddio'r cwestiwn ar sgiliau iaith ar y ffurflen gais safonol i ychwanegu unrhyw siaradwyr Cymraeg	I gychwyn ar unwaith	Prif Swydddog Pobl a Datblygu Trefniadaeth	Ers i broses Recriwtio DigiGov fynd yn fyw ym mis Medi 2013 mae gennym ni'r capasiti i gadw gwybodaeth am allu Cymraeg yr ymgeiswyr. Caiff gallu ymgeiswyr llwyddiannus yn y Gymraeg ei gadw yn DigiGov a ddefnyddir i ddiweddarau'r cyfeiriadur o staff sy'n siarad Cymraeg.	

newydd i'r cyfeiriadur o staff sy'n siarad Cymraeg				
4. WYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR				
Sicrhau bod teitl, delwedd gorfforaethol a dyluniadau cysylltiedig y Cyngor yn ddwyieithog ar: i. Eiddo ii. Cerbydau iii. Dillad iv. Cyhoeddiadau v. Pob math o Arddangosfa Gyhoeddus	Archwiliadau Blynnyddol Thematig yn cychwyn Medi 2009	Pob Prif Swyddog	Proses barhaus. Mae Pecyn Cymorth Brand Corfforaethol wedi'i greu i sicrhau bod teitl, delwedd gorfforaethol a dyluniadau cysylltiedig y Cyngor yn ddwyieithog. Mae'r holl frandio corfforaethol wedi'u hanelu at y cyhoedd yn ddwyieithog. Mae'r canllaw yn cyfeirio ac yn cefnogi staff a chyflenwyr o ran defnyddio arddull gweledol Cyngor Dinas Caerdydd gyda phob darn o waith. Mae gan yr holl swyddogion cyfathrebu, dylunio a marchnata gopiâu o'r canllawiau ac mae angen iddynt eu dilyn a'u gweithredu pan fo'n briodol. O ran Cyfathrebu a'r Cyfryngau caiff yr holl ddeunydd marchnata a dylunio ei greu yn ddwyieithog a'i gyfieithu'n fewnol. Caiff Cyfarwyddiaethau eu hannog i gysylltu â'r adran Gyfathrebu i gael cyngor ynglŷn â gwisgoedd - ond mae'n rhaid i bawb ddilyn y canllawiau o ran lleoliad a lliw y ddelwedd. Mae manylion penodol i'w dilyn yn gysylltiedig â cherbydau fel y nodir yn y canllawiau.	
Sicrhau bod pob arwydd newydd ac arwyddion a godir yn lle hen rai (dros dro a pharhaol), y tu mewn, y tu allan ac ar y briffordd, yn gwbl ddwyieithog ac yn parchu egwyddor cydraddoldeb.	Archwiliadau ar hap o bob gwasanaeth gan Gydlynwyr yr iaith Gymraeg	Pob Prif Swyddog	Parhaus – caiff yr holl arwyddion dros dro a newydd eu hanfon i uned Caerdydd Ddwyieithog i'w cyfieithu neu eu prawf-ddarllen a'u codi'n ddwyieithog.	
Cynhyrchu llyfryn canllaw polisi ar gyfer enwi strydoedd a rhestr	Medi 2009	Prif Swyddog perthnasol ar y cyd â Swyddog yr	Mae Ystadau Strategol yn rheoli ac yn cynnal rhestr o enwau strydoedd ac eiddo dwyieithog sy'n adlewyrchu'r enwau strydoedd ac eiddo swyddogol a grëwyd gan y	

<p>o enwau strydoedd a datblygiadau dwyieithog, Saesneg a Chymraeg</p>		<p>iaith Gymraeg.</p>	<p>Swyddog Enwi Strydoedd yn yr adran Priffyrdd. Mae'r project Gazetteer yn fenter a gyflwynir ar hyd a lled y DU ac a lywodraethir gan ganllawiau cofnodion data llym sy'n sicrhau y caiff cyfeiriadau Cymraeg eu cofnodi'n gywir.</p> <p>Mae'r Cyngor wrthi'n cwblhau Canllaw Cynllunio i Fyw Caerdydd a gaiff ei gyhoeddi ym mis Mai 2015 ac sy'n nodi uchelgeisiau'r Cyngor o ran creu lleoedd, dylunio trefol a phensaernïaeth, a fydd yn cael eu trosi i safleoedd datblygu strategol ledled y ddinas. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan allweddol o un o'r 10 'egwyddor uwchgynllunio' a bydd yn bwysig i sicrhau bod datblygiadau newydd yn creu lleoedd llwyddiannus. Gweler rhagor o wybodaeth ar dudalen 42</p>	
<p>Sicrhau bod yr holl ddatganiadau i'r wasg yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog</p>	<p>O fis Ebrill 2010 ymlaen, ond ar unwaith os byddant yn ymddangos ar hafan y wefan.</p>	<p>Prif Swyddog Strategaeth a Menter ar y cyd â'r holl Brif Swyddogion</p>	<p>Mae'r tîm cyfryngau ar y cyd â Chaerdydd Ddwyieithog yn sicrhau bod pob datganiad i'r wasg a baratoir yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog. Mae Neuadd Dewi Sant a'r Theatr Newydd yn anfon pob datganiad i'r wasg i uned Caerdydd Ddwyieithog i'w gyfieithu. Mae'r Cyngor yn gweithredu cyfrifon Twitter Cymraeg a Saesneg rhagweithiol ac adweithiol gyda newyddion a gwybodaeth am wasanaethau i drigolion Caerdydd ac ymwelwyr.</p> <p>Hefyd mae'r Cyngor yn trydar yn fyw o gyfarfodydd y cyngor llawn yn Gymraeg a Saesneg.</p> <p>Mae gan y cyfrif Saesneg 37,614 o ddilynwyr a'r cyfrif Cymraeg 1,566 o ddilynwyr (ffigur ar 15 Ebrill). Mae'r tîm cyfryngau ar y cyd â Chaerdydd Ddwyieithog yn sicrhau bod yr holl negeseuon trydar a baratoir yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ac ymatebir i'r holl ymholiadau Cymraeg yn Gymraeg.</p> <p>Mewn arolwg gan gomisiynydd y Gymraeg (Medi 2014) ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar Twitter cafodd Cyngor Dinas</p>	

			Caerdydd ei amlygu fel esiampl o arfer da. Nodwyd yn yr adroddiad <i>"Mae Cyngor Caerdydd yn cynnal cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, ac mae'n un esiampl o arfer da o ran cynnal y dull hwn. Mae'n amlwg o'r ddau gyfrif ei fod yn blaengynllunio sy'n amlwg yn ddull effeithiol o ran cynnal ffrydiau Cymraeg a Saesneg ar wahân sy'n cynnwys yr un wybodaeth. Y fantais yw bod y cyfrif Cymraeg ar wahân ac yn hawdd ei ddilyn."</i>	
Sicrhau bod y canlynol yn ddwyieithog: i. Cyhoeddiadau ii. Ffurflenni a deunydd esboniadol iii. Hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion iv. Hysbysebion recriwtio	Archwiliadau Blynyddol Thematig yn cychwyn Medi 2009	Pob Prif Swyddog	Mae staff yn ymwybodol o'u goblygiadau dwyieithog trwy'r briff 'Materion Cymraeg' a anfonir dros e-bost, trwy Gydlynwyr yr Iaith Gymraeg i Gyfarwyddiaethau, yn ogystal â mewn sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith. Mae gwybodaeth hefyd ar gael ar dudalen mewnwyd Caerdydd Ddwyieithog. Caiff yr holl gyfarwyddiaethau eu hatgoffa i sicrhau bod yr holl ohebiaeth yn ddwyieithog oni bai bod cofnod o ddewis iaith unigolyn. Mae'r holl hysbysebion recriwtio yn ddwyieithog, yn ogystal â'r holl ddogfennau cysylltiedig ar gyfer pob swydd swyddi.caerdydd.gov.uk	
5. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN				
Cyhoeddi a Gweithredu Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Gorfforaethol y Cyngor 2009-2012 yn unol â'r mesurau yn y Strategaeth.	Ebrill 2009 – Mawrth 2012	Prif Swyddog – Gwasanaethau Pobl AD a'r Swyddog Iaith ar y cyd â'r holl Brif Swyddogion.	Cafodd y Strategaeth Sgiliau Iaith Gorfforaethol ddiwygiedig ei chymeradwyo gan y Cabinet ar 13 Mawrth 2014. Yn ogystal â diwallu gofyniad statudol, bydd rhoi'r Strategaeth ar waith yn cyfrannu at strategaethau Cymunedau a Phobl y Cyngor, gan ymdrin yn benodol â'r anghydbwysedd presennol o ran siaradwyr Cymraeg yn y gweithle gan sicrhau ein bod ni'n cynrychioli'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu yn well.	

			<p>Yn ogystal â monitro, adolygu a chadw/adfer data, mae'r Strategaeth hefyd yn darparu amserlenni dangosol o gyfrifoldebau a mesurau mewn perthynas â rhoi'r Strategaeth ar waith yn ystod y 3 blynedd nesaf ac yn darparu pecyn cymorth ymarferol i helpu rheolwyr i asesu eu gofynion o ran yr iaith Gymraeg. Bydd angen i'r gwaith o roi'r Strategaeth ar waith gael ei reoli o fewn adnoddau cyfarwyddiaethau er mwyn diwallu'r amserlenni dangosol yn y Strategaeth.</p> <p>Caiff y manylion diweddaraf o ran y strategaeth sgiliau eu cylchredeg o fewn y briff misol 'Materion Cymraeg' i'r holl staff (trwy'r cydlynwyr). Cafodd negeseuon atgoffa yn gofyn i reolwyr asesu eu timau eu cynnwys ym <u>mhob</u> briff misol yn 2014-15. Mae Caerdydd Ddwyeithog wedi datgan trwy'r briffiau hyn mai'r rheolwyr tîm sydd nawr yn gyfrifol am asesu timau. Mae canllawiau ar yr asesiadau wedi'u dosbarthu trwy'r cydlynwyr i reolwyr, gan gynnwys dogfen cwestiynau cyffredin a oedd yn ymdrin â chwestiynau y mae rheolwyr yn aml yn eu gofyn yn gysylltiedig â'r strategaeth ac asesiadau.</p>	
<p>Cyflwyno Hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith i bob aelod o staff drwy sicrhau bod Cydlynwyr yr Iaith Gymraeg yn darparu hyfforddiant o leiaf un diwrnod y mis i bob gwasanaeth hyd nes bod yr ymarfer wedi'i gwblhau.</p>	<p>I gychwyn ar unwaith</p>	<p>Prif Swyddog – Pobl a Datblygu Trefniadaeth, Cydlynwyr yr Iaith Gymraeg ac Uned yr Iaith Gymraeg</p>	<p>Mynychodd 8 aelod o staff gwrs 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' a gynhelir gan Cwmni Iaith ym mis Mehefin 2014, a fydd yn eu galluogi i gyflwyno'r hyfforddiant hwn yn eu cyfarwyddiaethau. Drwy hyfforddi cydlynwyr yr iaith Gymraeg a staff i gyflwyno'r hyfforddiant hwn byddwn yn gallu cyflwyno rhaglen ymwybyddiaeth iaith gynhwysfawr ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor.</p> <p>Mynychodd 40 aelod o staff y gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn 2013-14 a gynhaliwyd gan eu cydlynwyr ar ôl iddynt fynychu cwrs</p>	



			<p>hyfforddi'r hyfforddwr. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio'n benodol ar y strategaeth 'Mwy na Geiriau'. Disgwylir i'n cwrs ymwybyddiaeth iaith ddechrau yn yr haf (2015) a'r bwriad yw cyflwyno'r cwrs i nifer o gyfarwyddiaethau yn ystod 2015-16.</p> <p>Yn ogystal â sesiynau ymwybyddiaeth iaith, mae grŵp o awdurdodau lleol gan gynnwys Cyngor Dinas Caerdydd wedi cyd-brynu modiwl e-Ddysgu ar ymwybyddiaeth iaith, a ddatblygwyd gan Learning Industries gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda, sydd bellach wedi'i addasu gan awdurdodau lleol. Rydym yn aros am y fersiwn derfynol gan y cwmni datblygu meddalwedd. Ar ôl ei lansio, caiff ei roi ar wefan yr Academi a bydd yn rhoi ffordd arall i'r Cyngor ddiwallu'r gofyniad hwn.</p> <p>Mae'r iaith Gymraeg yn parhau i fod yn rhan o'r sesiynau Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb a Sefydlu Corfforaethol a gyflwynir i'r holl staff am ddim. Caiff pob aelod o staff sy'n mynychu sesiynau Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb ei atgoffa o'i oblygiadau o ran gweithredu, rhoi gwybod i bartneriaid a monitro cydymffurfiaeth â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.</p>	
<p>Cyhoeddi'r Cynllun newydd yn ogystal â chrynodebau o adrannau yn y Cynllun, gwasanaeth cyfieithu, arfer da a chyfeiriadur o siaradwyr Cymraeg</p>	<p>Unwaith y caiff y Cynllun ei gymeradwyo</p>	<p>Swyddog yr Iaith Gymraeg a Chydlynwyr yr Iaith Gymraeg</p>	<p>Mae'r holl ddogfennau canllaw ar gael ar dudalen mewnwyd Caerdydd Ddwyeithog. Mae'r dudalen yn cynnwys yr holl ddogfennau canllaw mewn perthynas â'r iaith Gymraeg gan gynnwys crynodeb o'r cynllun, gwybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael, manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau'n ymwneud â'r cynllun iaith a ffurflen cais am gyfieithiad. Mae dolen i'r dudalen Gymraeg ar hafan y fewnrwyd fel ei bod yn gwbl hygyrch i staff.</p> <p>Ceir hefyd amryw erthyglau gan Caerdydd Ddwyeithog yn 'Your Inbox' (gwybodaeth a anfonir at staff) yn ogystal â briff misol i bob aelod o staff yn targedu amryw agweddau ar sicrhau cydymffurfiaeth â'r cynllun, gan gynnwys cynyddu</p>	

		<p>nifer y siaradwyr Cymraeg ar y cyfeiriadur ffôn a chyfarwyddyd gan y cyfieithwyr.</p> <p>Ar y cyfeiriadur ffôn canolog, gall staff ddefnyddio hidlydd i weld yr holl siaradwyr Cymraeg a phwy yw eu Cydlynnydd yn eu Cyfarwyddiaeth. Mae rhestr lawn o Gydlynwyr a Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg wedi'i hatodi yn Atodiad V.</p> <p>Anfonwyd erthyglau at staff i'w hatgoffa o'r angen i 'flaengynllunio o ran cyfieithu eu deunydd' i sicrhau bod digon o amser i'w gyfieithu.</p> <p>Mae'r Cynllun Iaith a'r adroddiad Monitro Blynyddol nawr yn gwbl hygyrch i'r cyhoedd trwy www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am dîm 'Caerdydd Ddwyieithog' yn ogystal ag ystadegau ar yr iaith Gymraeg yng Nghaerdydd.</p> <p>Mae cydlynwyr yr iaith Gymraeg yn cwrdd yn fisol i drafod y datblygiadau diweddaraf o ran agenda'r iaith Gymraeg ac i rannu arfer da ymysg cyfarwyddiaethau. Mae'r cydlynwyr a'r hyrwyddwyr yn hollbwysig i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau statudol dan y cynllun iaith.</p> <p>Yn 2014-15 sefydlwyd Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyieithog newydd i ddatblygu agenda'r iaith Gymraeg, yn dilyn y gynhadledd Caerdydd Ddwyieithog a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2014. Mae'r grŵp yn cynnal cyfarfodydd chwarterol i fonitro perfformiad yn erbyn y cynllun iaith, gweithredu fel grŵp cyfeirio ar gyfer materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a chynnig llais i ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaeth. Nod y grŵp yw cymryd rôl arweiniol, ac ar y cyd â'n sefydliadau partner, datblygu Caerdydd gwbl ddwyieithog lle gall dinasyddion a staff Cyngor Dinas</p>	
--	--	--	--

			<p>Caerdydd gael gafael ar wasanaethau a chymorth yn y ddwy iaith yn gydradd. Am ragor o fanylion gweler tudalen 41.</p> <p>Hefyd, mae'r iaith Gymraeg yn parhau i fod yn rhan o'r sesiynau Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb a Sefydlu Corfforaethol a gyflwynir am ddim i'r holl staff. Cyflwynir sesiynau Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb gydol y flwyddyn.</p>	
Cofnodi'r achlysuron pan na chydymffurfir â'r Cynllun fel camau gwella ar System Wella Caerdydd	Os a phryd y sylwir na chydymffurfir â'r Cynllun	Archwilwyr, Cydlynwyr Ansawdd, Swyddog yr Iaith Gymraeg a Chydlynwyr y Cynllun	Mae cyfanswm o 24 o achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth wedi'u hadrodd i'r adran Cwynion Corfforaethol. Caiff yr achosion hyn eu monitro a'u rhannu ag uwch reolwyr.	
Monitro Cydymffurfiaeth ar gyfer contractau a gwasanaethau newydd a'r rhai a gaiff eu hadnewyddu	Unwaith y caiff y Cynllun ei gymeradwyo	Pob Prif Swyddog ar y cyd â'r Swyddog Monitro	<p>Mae gan Gyngor Dinas Caerdydd nifer o gontractau eraill ar waith gyda chontractwyr neu sefydliadau trydydd parti ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae dadansoddiad o'n Porth Caffael wedi amlygu bod tua 11 o gontractau wedi'u dyfarnu i ddarparu 'Gwasanaethau' ar ran y Cyngor. Dim ond contractau sy'n ymwneud â gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd sy'n cael eu cynnwys.</p> <p>Byddai'r contractau/trefniadau fframwaith newydd wedi defnyddio cwestiynau cyn cymhwyso/dethol o gyfres o gwestiynau SQuID Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys nifer o gwestiynau'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Byddai'r cwestiynau ond yn cael eu gofyn pan fo contract ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol i'r cyhoedd.</p> <ul style="list-style-type: none"> Disgrifiwch eich profiad a/neu ddull cyffredinol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau bod gofynion siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu, fel y nodir yn neddfwriaeth yr iaith Gymraeg. 	

			<ul style="list-style-type: none"> • Ydych chi wedi cael contract wedi'i derfynu a/neu wedi cael gwybod am dor-cytundeb neu dor-cytundeb posibl am resymau'n ymwneud â gofynion yr iaith Gymraeg o fewn y 3 blynedd ddiwethaf? <p>Hefyd yn y Telerau ac Amodau safonol ar gyfer Gwasanaethau mae gofyn i gontractwyr gofrestru i'r cymal canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Contractwr yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") (pan ddaw darpariaethau'r Mesur i rym ac i'r graddau y mae'n ymwneud â darparu'r Gwasanaethau), yn ystod Cyfnod y Cytundeb. <p>Fel y nodir yn y cynnydd ar gyfer 2013-14 o ran gweithdrefnau monitro parhaus ar gyfer contractau rydym yn cynnal cyfarfodydd adolygu contractau rheolaidd gyda chyflenwyr. Mae amllder y cyfarfodydd hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau megis gwerth y contract a'r risg, ond yn gyffredinol maent yn amrywio o bob mis i bob chwarter.</p> <p>Gall unrhyw faterion mewn perthynas â pherfformiad y contract gael eu trafod yn y fforwm hwn a gall unrhyw faterion o ran darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg gael eu hamlygu a'u trin yn briodol.</p>	
<p>Gweithio gyda Bws Caerdydd a Bwrdd yr iaith Gymraeg i weithredu eu polisi o estyn y defnydd o'r iaith Gymraeg gyda gwasanaethau a</p>	<p>Unwaith y caiff y Cynllun ei gymeradwyo</p>	<p>Prif Swyddog Priffyrdd a Rheoli Gwastraff a Swyddog yr Iaith Gymraeg</p>	<p>Mae Bws Caerdydd yn parhau i fabwysiadu'r iaith Gymraeg yn unol â'i Bolisi Iaith Gymraeg ar ei wefan. Mae gwybodaeth y tu mewn a'r tu allan i'r bysus, gan gynnwys arwyddion gwybodaeth, y wefan a deunydd cyhoeddusrwydd hefyd yn ddwyieithog lle bynnag y bo'n bosibl. Mae gwaith yn cael ei wneud ar gyflwyno cyhoeddiadau dwyieithog clywedol a gweledol a bydd hyn yn</p>	

ddarperir gan Bws Caerdydd.			cael ei estyn yn 2014 a 2015 yn unol â'r gwaith i adnewyddu'r fflyd.	
Sicrhau bod dogfennau sy'n ymwneud â cheisiadau am drwyddedau, hawliau a chaniatâd yn cynnwys datganiad am y Cynllun ac arferion dwyieithog (e.e. digwyddiadau)	Archwiliad blynyddol	Pob Prif Swyddog	<p>Mae'r holl ffurflenni cais trwyddedu/cofrestru yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a byddant ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar ôl i'r system cronfa ddata trwyddedu newydd gael ei rhoi ar waith (a ddisgwylir yn 2015).</p> <p>Rydym wedi dechrau lanlwytho fersiynau Cymraeg o ddogfennau ar y wefan a byddwn yn cwblhau'r gwaith yma erbyn mis Medi 2015.</p> <p>Mae cofrestrau ar-lein nawr ar gael yn Gymraeg ar y wefan.</p> <p>Yn y cyfamser, mae'r dogfennau ar gael yn Gymraeg os nodir dewis iaith ar y ffurflen monitro ethnigrwydd, sydd ynghlwm wrth bob cais, sy'n nodi:</p> <p>Os hoffech chi dderbyn eich dogfennau yn Gymraeg, ticiwch yma: <input type="checkbox"/></p>	
Trefniadau monitro. Cyflwyno adroddiadau perfformiad gan Wasanaethau ac adroddiadau monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.	Yn flynyddol yn unol â dyddiad cau Bwrdd yr Iaith	Uwch Swyddog Gweithredu a phob Prif Swyddog	Caiff adroddiadau perfformiad gan Gyfarwyddiaethau eu cyflwyno neu eu casglu gan dîm Caerdydd Ddwyieithog. Yna caiff yr Adroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg ei ddrafftio a'i gyflwyno i Weithgor Aelodau Caerdydd Ddwyieithog, Gyfarfod y Cabinet a'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth cyn cael ei gyflwyno i'r Comisiynydd Iaith erbyn y dyddiad cau o 30 Mehefin 2015. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun yn ogystal ag unrhyw ddiffygion o ran ei roi ar waith ar y lefel uchaf posibl.	
Adrodd ar gynnydd i Weithrediaeth y Cyngor a'r Pwyllgor Craffu priodol	Adroddiad nesaf cyn pen blwyddyn ar ôl i'r Cynllun gael ei gymeradwyo	Uwch Swyddog Gweithredu a phob Prif Swyddog	Caiff cynnydd ei adrodd i'r Cabinet a'r Cyngor, fel yr adroddir yn erbyn y mesur blaenorol uchod.	

<p>Cyhoeddi'r Cynllun ym mhob ffordd bosibl, yn allanol ac yn fewnol fel y nodir yn y Cynllun</p>	<p>Ar ôl cymeradwyo'r Cynllun diwygiedig</p>	<p>Swyddog yr Iaith Gymraeg a Phob Prif Swyddog a Chyfathrebu Corfforaethol</p>	<p>Caiff cylchlythyr misol "Materion Cymraeg" ei anfon at bob aelod o staff trwy gydlynwyr yr iaith Gymraeg i'w cyfarwyddiaethau. Mae'r briff yn cynnwys gwybodaeth am y datblygiadau polisi diweddaraf (e.e. Safonau), cyrsiau'r iaith Gymraeg, deunydd iaith Gwaith, crynodeb o gwynion a dderbyniwyd a negeseuon atgoffa i staff. Yn ogystal â hyn cyhoeddir erthyglau yn y cylchlythyr 'Your Inbox' a rhoddir cyhoeddusrwydd i'r cynllun ar fewnrwyd y Cyngor a chaiff staff eu hatgoffa o brif egwyddorion y cynllun. Mae fersiwn ddiweddar o'r cynllun nawr ar gael ar y fewnrwyd yn ogystal ag i'r cyhoedd trwy www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog</p> <p>Hefyd mae'r iaith Gymraeg yn parhau i fod yn rhan o'r sesiynau Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb a'r cyrsiau Sefydlu Corfforaethol a gyflwynir am ddim i bob aelod o staff. Cyflwynir sesiynau Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb gydol y flwyddyn.</p>	
<p>Cynnal arolygon i fesur barn y cyhoedd ar wasanaeth iaith Gymraeg y Cyngor (e.e. Holi Caerdydd)</p>	<p>Bob blwyddyn</p>	<p>Swyddog yr Iaith Gymraeg pob Prif Swyddog a'r tîm Ymchwil</p>	<p>Gweler canlyniadau o Arolwg Boddhad Cwsmeriaid C2C yn Atodiad VI</p>	

2. Gwasanaethau Rheng Flaen yr Iaith Gymraeg

i. Partneriaeth Caerdydd

Adrodd ar Ddarpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cyfrwng Cymraeg (cwestiynau a ofynnir i bob Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc)

1) Darpariaeth

Ydych chi wedi asesu i ba raddau y mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn diwallu anghenion pobl ifanc? Pa fylchau neu anghenion pellach sydd wedi'u nodi? I ba raddau mae gwaith sefydliadau megis yr Urdd; Mentrau Iaith; a Chlybiau Ffermwyr Ifanc, lle bo'n berthnasol, yn diwallu'r anghenion yn eich Sir?

Roedd comisiynu ar gyfer y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn seiliedig ar asesu angen lleol ar gyfer cynllun integredig sengl Caerdydd, 'Beth sy'n Bwysig', sydd nawr yn ymgorffori'r hen Gynllun Plant a Phobl Ifanc. Roedd yr holl fanylebau yn cynnwys gofyniad 'y bydd disgwyl i ddarparwyr ddangos sut y byddant yn diwallu gofynion Mesur y Gymraeg 2011 a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.' Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau i bobl ifanc yn y chwe phegyn gwasanaeth. Caiff darpariaeth yn erbyn hyn ei fonitro trwy'r cyfarfodydd a dogfennau monitro contractau.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf hefyd wedi darparu cyllid i gynnal gwefan pobl ifanc The Sprout. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd sylw arbennig i ddatblygiad y fersiwn Gymraeg ac i sicrhau bod pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn gallu manteisio ar gyngor a gwybodaeth yn eu dewis iaith (gweler adran 6 isod). Mae'r cyllid Teuluoedd yn Gyntaf wedi galluogi i hyn barhau. Mae The Sprout wedi cynnal cyfeiriadur o wasanaethau, gan gynnwys y rheiny sydd ar gael yn benodol trwy gyfrwng y Gymraeg, sydd wedi'i ddiweddarau o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

2) Cydweithredu â Phartneriaid

Eglurwch union natur unrhyw gydweithio rhwng y Sir a sefydliadau Cymraeg, e.e. Mentrau Iaith; yr Urdd; a Chlybiau Ffermwyr Ifanc lle y bo'n berthnasol. Gallwch gyfeirio at gytundebau lefel gwasanaeth; aelodaeth y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc; aelodaeth y pwyllgorau gweithredol; fforymau'r sir ac unrhyw drefniant arall.

Datblygwyd gwaith partneriaeth ymhellach rhwng Cyngor Dinas Caerdydd, Menter Caerdydd a'r Urdd yn ystod y cyfnod hwn. Gwnaed cynnydd o ran cyd-gynllunio ar gyfer cynnig darpariaeth gwaith ieuenctid cymdeithasol ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2014/15.

Mae strwythur y Bartneriaeth P&Phl wedi dod i ben fel endid ar wahân ac mae trefniadau llywodraethu newydd yn cael eu paratoi fel rhan o'r trefniadau darparu ar gyfer 'Beth sy'n Bwysig'. Mae Bwrdd Partneriaeth Caerdydd yn rheoli perfformiad 'Beth sy'n Bwysig', ac yn goruchwylio

wyth rhaglen o weithgareddau ffrwd waith ledled y Ddinas. Mae cysylltiad clir rhwng cynllun corfforaethol yr awdurdod lleol, cynlluniau busnes gwasanaethau a Beth sy'n Bwysig. O ran gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Ddinas yn y dyfodol bydd y cysylltiad hwn yn cynyddu'r posibilrwydd o weithio ar faterion ac agendâu nad ydynt yn eiddo i un asiantaeth neu wasanaeth.

3) Sgiliau Staff

Sut ydych chi'n cynllunio eich gweithlu gwasanaeth ieuenctid ar gyfer y dyfodol er mwyn diwallu anghenion pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg?

Bydd disgwyl i chi grybwyll prosesau recriwtio; mapio nifer yr aelodau o staff a'u sgiliau ieithyddol; cynlluniau i ddatblygu sgiliau ieithyddol staff; ac unrhyw hyfforddiant.

Cynhaliwyd arolwg ieithyddol staff y Gwasanaeth Ieuenctid yn 2014-15 fel sail i ofynion gwasanaeth a gwaith cynllunio.

Mae Safon 9 y Safonau Cenedlaethol Drafft ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru yn nodi:

'Dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid roi cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n dathlu iaith, diwylliant, hanes a threftadaeth Cymru. Dylai hyn ganolbwyntio ar ymglymiad ar dair lefel sy'n derbyn o leiaf 5% o gyllideb y Gwasanaeth Ieuenctid.

- i Lefel 1 Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg
- ii Lefel 2 Darpariaeth i bobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg
- iii Lefel 3 Rhaglen sy'n dathlu diwylliant, hanes a threftadaeth Cymru a chymunedau lleol.'

Mae'r safon hon yn cael ei chyflawni yng Nghaerdydd ar hyn o bryd.

- Ebrill 2014- Mawrth 2015 cynhaliwyd dau Swyddog Addysg Cymunedol llawn amser sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Parhawyd i gyflogi chwech aelod o staff rhan amser sy'n gyfrifol am 60 awr yr wythnos o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Parhawyd i gynnig a datblygu'r ddarpariaeth gymdeithasol mynediad agored sy'n denu dros 40 o bobl ifanc yr wythnos, yn ardaloedd dwyreiniol a gorllewinol y ddinas.
- Cefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddarparu Gwobr Dug Caeredin, gweithdai Addysg Personol a Chymdeithasol, diwrnodau pontio blwyddyn chwech a rhaglenni Cryfhau Teuluoedd.

- Cyflogwyd Gweithwyr Arweiniol sy'n siarad Cymraeg i weithio'n benodol gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar ôl troi'n 16 oed.
- Datblygwyd rhaglen cymorth mentora gadarn mewn tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, gan dargedu'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar ôl iddynt droi'n 16 oed.
- Cefnogwyd pobl ifanc dros 16 oed oedd a gafodd addysg cyfrwng Cymraeg i fynd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth trwy'r rhaglen Hyfforddwr Dysgu.
- Parhawyd i ddarparu rhaglenni sy'n dathlu diwylliant Cymru trwy ganolfannau ieuenctid Saesneg.

Disgwylir i ddarparwyr Teuluoedd yn Gyntaf ystyried goblygiadau o ran staffio i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth sydd eisiau gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Hyd yn hyn, mae'r niferoedd hyn wedi bod yn isel. Fodd bynnag, mae nifer o wasanaethau yn cofnodi bod ganddynt staff sy'n gallu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg os oes angen.

4) Cyllid

Pa gynlluniau ariannol sydd i gefnogi datblygiad ac esblygiad gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc yn eich Sir?

Adran	Mudiad	Contract	Swm	Hyd y contract	Sylwadau
Arian Craidd y Gwasanaeth Ieuenctid Addysg	Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd	Arian Craidd ALI	£132,547 4.80% o staff y gwasanaeth	2014 - 15	Ymrwymiad i staff craidd gan gynnwys gweithwyr rhan amser a delir, ymrwymiad i staff craidd gan gynnwys gweithwyr cyfwerth ag amser llawn

5) Ymgynghoriad

Pa ddulliau ydych chi'n eu defnyddio i ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc er mwyn nodi meysydd blaenoriaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer y gwasanaeth? Rhowch enghreifftiau penodol.

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd wedi ymgynghori ar ailddatblygu darpariaeth fel rhan o'r setliad cyllidebol ar gyfer 2015/16. Cynhaliwyd proses ymgynghori gynhwysfawr gyda phobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r drafodaeth gyffredinol gyda phobl ifanc ar lunio gwasanaeth y dyfodol.

Mae gofyn i ddarparwyr Teuluoedd yn Gyntaf gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y gwaith o ddatblygu eu gwasanaethau a chaiff hyn ei fonitro trwy gyfarfodydd a dogfennau monitro. Byddai ymglymiad fel defnyddwyr gwasanaeth yn dibynnu ar faint sy'n gofyn am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

6) Gwybodaeth Ychwanegol

Mae cyllid wedi'i ddyrannu yn y pecyn Blynyddoedd Cynnar i gefnogi rhieni ac annog darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Menter Caerdydd a Mudiad Meithrin yw'r partneriaid darparu ar gyfer y darn o waith hwn. Nid yw pobl ifanc yn elwa'n uniongyrchol o hyn ond dylai helpu i gryfhau'r defnydd o Gymraeg ymysg teuluoedd â phlant ifanc (0-8).

ii. Dangosydd yr iaith Gymraeg 2 - Nifer a % y swyddi mewn prif dderbynfeydd, canolfannau galw neu siopau-un-stop wedi'u dynodi'n 'Gymraeg hanfodol' ac wedi'u llenwi gan staff dwyieithog.

Cymeradwyodd y Cabinet Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Gorfforaethol ddiwygiedig y Cyngor ym mis Mawrth 2014. Mae'r Strategaeth yn galluogi'r Cyngor i gynnal trosolwg o'i anghenion ac adnoddau sgiliau iaith, a chydlynu gweithgareddau hyfforddiant a recriwtio i hwyluso amcanion y Cynllun Iaith.

Mae'r Strategaeth hon yn sicrhau bod gofynion ieithyddol yr holl swyddi rheng flaen yn cael eu hasesu a'u dynodi fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu heb ofyniad ieithyddol.

Cyfarfu Cydlynwyr yr Iaith Gymraeg y Cyfarwyddiaethau a/neu Swyddog yr Iaith Gymraeg â gwasanaethau rheng flaen sy'n flaenoriaeth fel y nodwyd gan reolwyr ac maent wedi asesu dros **975 o swyddi** o ran gofynion ieithyddol hyd at Ebrill 2015, o'r rhain caiff **111** o swyddi (**11%**) eu dynodi'n Gymraeg Hanfodol yn unol â'r Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Corfforaethol. Mae canran o swyddi ym mhob tîm a/neu wasanaeth rheng flaen wedi'u dynodi'n Gymraeg hanfodol a/neu ddymunol er mwyn gwneud yn siŵr y gallwn sicrhau gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yn ystod y cyswllt cyntaf yn unol â'r Strategaeth. Mae rhestr o dimau a aseswyd yn 2014-15 i'w gweld yn **Atodiad II**.

Enghraifft o Arfer Da

Mae Cysylltu â Chaerdydd yn cynnal arolygon boddhad gwasanaeth cwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg. Bob chwarter, mae asiantau Cymraeg yn cysylltu ag 20 cwsmer sydd wedi defnyddio'r llinell Gymraeg i gynnal arolwg o'u barn ar y gwasanaeth. Mae'r cwestiynau a ofynnir wedi'u hanelu at gael adborth ar sut gall y llinell Gymraeg wella'r gwasanaeth. I gael rhagor o wybodaeth, gweler **Atodiad VI**.

Ymarfer Monitro Cydraddoldeb Cyflogeion

Trwy gyflwyno DigiGov a rhoi'r cyfle i staff ddilysu eu data personol eu hunain, gall Cyngor gofnodi gallu staff o ran yr iaith Gymraeg (ac ieithoedd eraill). Mae cyfanswm o **4,546** o staff wedi dilysu eu cofnodion ar y system DigiGov. O'r rhain mae **221** aelod o staff wedi nodi bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynrychioli **4.86%** o'r rhai sydd wedi cofrestru ar y system. . Bydd angen cyflwyno DigiGov i rannau eraill o'r Cyngor hefyd (cyflogeion mewn ysgolion yn benodol), a fydd yn ein galluogi i fonitro'n ehangach. Mae erthyglau wedi'u cynnwys yn y briff Materion Cymraeg sy'n atgoffa staff o'r angen i ddiweddarau eu cofnodion ar DigiGov.

iii. Dangosydd yr iaith Gymraeg 6 – Safon gwasanaethau

Yn ystod 2014/15, derbyniwyd cyfanswm o 24 o gwynion gan yr adran Cwynion Corfforaethol mewn perthynas â gweithredu Cynllun yr iaith Gymraeg. P'un a dderbyniwyd cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, aethpwyd i'r afael â hwy yn unol â'r weithdrefn gwyno gorfforaethol.

Mae'r polisi Cwynion Corfforaethol wedi'i chyhoeddi ac mae gofyn i'r holl gyfarwyddiaethau gwblhau Ffurflen Monitro Cynllun Iaith Gymraeg bob chwarter er mwyn adrodd ar gwynion mewn perthynas â'r Cynllun i'r Gwasanaeth Cyfreithiol.

iv. Dangosydd yr iaith Gymraeg 1 – Mwy na geiriau

Fframwaith Strategol ar gyfer yr iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol - Mwy na Geiriau.

Adroddiad Cynnydd 2014 - 15

Cyngor Dinas Caerdydd

Roedd cynnydd yn araf rhwng Ebrill a Medi, gan fod gofynion cystadleuol yr adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi effeithio ar ddatblygiadau ac adnoddau cyfyngedig i weithio ar Mwy na Geiriau yn ystod y misoedd hynny. O ganlyniad, ym mis Hydref 2014, rhyddhaodd Hyrwyddwr yr iaith Gymraeg a'r Uwch Reolwr yn y gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol rywfaint o oriau rheoli o fewn y Gyfarwyddiaeth i alluogi Cydlynnydd yr iaith Gymraeg i weithio ar weithredu'r Strategaeth Mwy na Geiriau.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers hynny.

1. Ar ôl dilyn Cwrs 3 diwrnod Hyfforddi'r Hyfforddwyr ar Ymwybyddiaeth Iaith ym mis Mehefin (a gaiff ei redeg gan IAITH), mae Cydlynnydd yr iaith Gymraeg wedi dylunio a darparu sesiwn hyfforddi i 40 o reolwyr yn y gwasanaeth lechyd a Gofal Cymdeithasol ac yn parhau i ddatblygu'r rhaglen i grwpiau eraill. Mae'r sesiwn yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a chyflwyniad ar y fframwaith Mwy na Geiriau gyda chynllun gweithredu i reolwyr i gynnwys asesiadau sgiliau i'r holl staff yn y Gyfarwyddiaeth.
2. Mae rheolwyr wrthi'n anfon asesiadau sgiliau wedi'u cwblhau ac rydym yn bwriadu cwblhau asesiadau ar gyfer pob un o'r 1000 aelod o staff erbyn Ebrill 2015.
3. Cydgysylltu â Chydlynnydd yr iaith Gymraeg yn y Gwasanaethau Plant i sicrhau cysondeb
4. Llunio proffil cymunedol o siaradwyr a gwasanaethau Cymraeg yn ôl ward yng Nghaerdydd
5. Caiff iaith ddewis ac anghenion bellach eu nodi ar y gronfa ddata o gleientiaid a ddefnyddir yng Nghaerdydd (Care First). Gwneir hyn trwy gwestiwn uniongyrchol ar y ffurflen 'atgyfeirio' gychwynnol. Caiff y wybodaeth hon ei rhoi ar gynllun gofal defnyddiwr gwasanaeth.
6. Mae gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth a ydynt wedi cael y cyfle i gyfathrebu â staff gofal cymdeithasol yn Gymraeg bellach yn gwestiwn gorfodol yn yr ymarfer adborth boddhad cwsmeriaid ar gyfer yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth.
7. Bydd yr ymarfer archwilio ffeiliau achos ar gyfer ansawdd rheoli data nawr yn cynnwys anghenion iaith ar y rhestr wirio.
8. Bydd angen iaith yn cael ei gynnwys o ran pwysoli darpariaeth gwasanaeth o fewn y prosesau a ddefnyddir yng Nghaerdydd ar gyfer comisiynu gofal cartref a gofal preswyl a nyrsio.
9. Mae'r manylebau gwasanaeth ar gyfer contractau gofal cartref nawr yn cynnwys paragraff mewn perthynas â Mwy na Geiriau, yn ogystal â Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor. Mae adran benodol o ran darparu gwasanaeth dwyieithog yn yr holiadur monitro chwarterol newydd i'r holl ddarparwyr, gan y tîm Contractau yn y gwasanaeth lechyd a Gofal Cymdeithasol.
10. Mae Cydlynnydd yr iaith Gymraeg wedi cwrdd â darparwyr yn y sector annibynnol i edrych ar ofynion Mwy na Geiriau a hefyd eu cydlynwyr gweithgareddau i awgrymu ffyrdd o gynnwys Cymraeg yn eu digwyddiadau a gweithgareddau gyda defnyddwyr gwasanaeth.
11. Rydym wedi gosod yr app Gofalu trwy'r Gymraeg ar y dyfeisiau symudol a roddir i holl staff cartrefi gofal mewn menter gofal cartref newydd a fydd yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf. Rydym yn bwriadu darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff gofal i gefnogi hyn. Mae llawer i'w wneud o hyd, felly rydym yn gobeithio y gallwn barhau â'r cynnydd yn 2015-16. Mae'r dyraniad adnoddau ar gyfer hyn wedi cynyddu'n helaeth a cheir cylch gwaith yn y Cyfarwyddiaethau Plant ac lechyd a Gofal Cymdeithasol i weithio ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Blwyddyn 3 o'r Strategaeth.

3. Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun

i. Dangosydd yr iaith Gymraeg 1 – Caffael

Mae DIG1 yn ymwneud â monitro nifer a % y bobl trydydd parti a gafodd eu monitro sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith yn y meysydd canlynol: -

i) gwasanaethau gofal

ii) gwasanaethau ieuencid a hamdden

iii) darpariaeth cyn-ysgol

i) gwasanaethau gofal

Gyda Chytundeb Fframwaith Gofal Cartref Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cyngor Dinas Caerdydd yn dod i ben ddiwedd Tachwedd 2014, cynhaliodd y Gyfarwyddiaeth broses achredu a chofrestru, yn gwahodd darparwyr gwasanaeth yn y maes gofal cartref a phreswyl a chartrefi nyrsio i ymuno â rhestr o ddarparwyr cymeradwy dynamig. Yn ogystal â'r safonau perthnasol mewn perthynas â Chynllun yr Iaith Gymraeg, mae'r fanyleb gwasanaeth newydd ar gyfer gofal cartref nawr yn cynnwys cyfeiriad penodol at 'Mwy na Geiriau' – y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg yn y maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r gwaith o roi'r Cynnig Actif ar waith wedi bod yn mynd rhagddo ac yn parhau. Rydym wedi cynnwys cwestiynau perthnasol o fewn y broses asesu a data craidd, gyda'r angen am ddarpariaeth Gymraeg wedi'i gofnodi ar gynlluniau gofal unigol. Mae hyn wedi'i gynnwys ar system cofnodi data defnyddwyr gwasanaeth Care First.

Yna caiff ei roi ar y system dendro ar gyfer Pecynnau Gofal unigol (system Matrix) a chaiff ei bwysoli'n briodol o fewn y broses gynig.

Bydd cydymffurfiaeth â'r safonau hyn yn cael ei monitro trwy holiaduron boddhad cwsmeriaid a holiaduron hunan-asesu chwarterol gan ddarparwyr lle mae gennym adran benodol ar gyfer yr ymarfer monitro hwn mewn perthynas â Mwy na Geiriau.

Gan mai dim ond yn ystod y deufis diwethaf y cafodd hyn ei sefydlu, rydym yn disgwyl gallu adrodd gyda data penodol o fis Ebrill 2015. Caiff y canlyniadau eu hadrodd yn ystod 2015/16.

Mae gwaith yn parhau gyda chontractau anabledau dysgu, a chontractau gofal preswyl a nyrsio. Mae hyn wedi'i nodi'n un o brif amcanion Cydlynedd yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2015/16.

Rydym yn adeiladu ar y gwaith hwn trwy ddatblygu Cynnig Actif drwy 'Mwy na Geiriau' drwy gynnal asesiadau sgiliau ieithyddol i'r holl staff gofal cymdeithasol. Gan ddechrau â'r gwasanaethau rheng flaen, rydym wedi cwblhau 450 o asesiadau staff. Rydym hefyd wedi cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith i 40 o reolwyr yn y Gyfarwyddiaeth, fel y bydd staff gwaith cymdeithasol yn parhau ag arfer gorau drwy ddefnyddio'r Cynnig Actif a chofnodi angen iaith ar gynlluniau gofal.

Mae Gwasanaethau Plant Caerdydd yn rhan o Gonsortiw Comisiynu Plant Cymru. Mae staff y consortiw yn rheoli fframwaith tendro ar gyfer pecynnau gofal unigol ar ran aelodau'r consortiw. Fel rhan o Aseiad Perfformiad Ansawdd blynyddol y consortiw, gofynnir i Ddarparwyr Fframwaith adrodd ar 'Nifer y gofalywyr sy'n siarad Cymraeg'. Mae'r niferoedd wedi'u casglu ar gyfer 2014. Mae'r gwaith o werthuso a chyfrifo canrannau'n mynd rhagddo ar hyn o bryd a chaiff y rhain eu hadrodd i bartneriaid y consortiw gan dîm y consortiw.

Nid oes gan y Gwasanaethau Plant system eto ar gyfer monitro'r trydydd partïon y mae'n eu comisiynu'n annibynnol. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaethau Plant ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrthi'n edrych ar gyfleoedd i gydweithio i roi gofynion Mwy na Geiriau a'r Safonau Iaith

Gymraeg ar waith, gan gynnwys safonau'n ymwneud â chomisiynu. Mae gwaith ar y gweill i nodi adnoddau a fydd yn rhyddhau capasiti staff i godi ymwybyddiaeth ac arwain o ran rhoi cynllun gweithredu ar waith yn y ddwy gyfarwyddiaeth. Disgwylir i'r trefniadau newydd gael eu cadarnhau a'u rhoi ar waith ar ddechrau Chwarter 1 2015-16.

Gweler **Atodiad I** ar gyfer cynnydd o ran Cynllun Gweithredu 2014-15.

ii (a) Contractau'r gwasanaeth ieuenctid

Nid oes unrhyw drydydd parti yn gysylltiedig â'r gwaith hwn ar hyn o bryd

ii (b) Contractau'r gwasanaeth hamdden

Mae gan y Gwasanaethau Hamdden ddau contractwr sy'n darparu gweithgareddau ar ran y Cyngor. Mae Menter Caerdydd a'r Urdd yn cydymffurfio'n llwyr â Chynllun yr Iaith Gymraeg.

Maent hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro sy'n darparu rhaglenni Beichiog a Bywiog yr uned bydwreigiaeth a rhaglenni eraill megis Atal Cwympiadau a Bwyta'n Iach.

3 trydydd parti gyda 2 yn cydymffurfio'n llawn. (66%)

Y llynedd, nid oedd unrhyw drefniant cyllido ffurfiol ar gyfer hamdden. Fe weithion ni mewn partneriaeth â Menter Caerdydd gan roi gostyngiad o hyd at 50% ar le mewn cyfleusterau i ddarparu rhaglen o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn wedi cynnwys lle yn y pwll ar gyfer gwersi nofio, lle yn y neuadd ar gyfer gymnasteg ac ati. O fewn y trefniant cyllido ar gyfer eleni, mae Menter wedi derbyn £30k i ddarparu gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â gostyngiad posibl ar logi lle. Mae gweithgareddau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynnwys estyn y rhaglen nofio a gymnasteg ac estyn darpariaeth yn ystod y gwyliau.

iii. Darpariaeth cyn-ysgol

Mae dyletswyddau o fewn Deddf Gofal Plant 2006 yn mynnu bod Awdurdodau Lleol yn cynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Blynyddol o'r cyflenwad a'r galw am ofal plant. Yn y ddogfen rydym yn cyfeirio at yr iaith sydd ar gael a'r galw am yr iaith Gymraeg ym mhob math o ofal plant, gan gynnwys darpariaeth cyn-ysgol. Caiff yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Diweddaraf a'r Cynllun Gweithredu eu cyflwyno i'r Llywodraeth ar 30 Ebrill 2015.

Yn ystod 2014/15, agorodd 2 leoliad Gofal Dydd Newydd sy'n cynnig 19 lle Cymraeg a 78 o leoedd dwyieithog. Collwyd 2 Gylch Meithrin (51 lle), ond rydym yn gweithio'n agos â Mudiad Meithrin sy'n ceisio sefydlu darpariaeth newydd i wneud yn iawn am hyn.

Yn ystod 2014/15 cafodd adnoddau Iaith Fyw eu prynu gyda Chyllid 'Tu Allan i'r Ysgol' Llywodraeth Cymru a'u rhoi i leoliadau sy'n cynnig gofal plant y tu allan i'r diwrnod ysgol (gall hyn gynnwys gofal cofleidiol i blant 3 a 4 oed).

Mae'r cais a'r canllawiau wedi'u hadnewyddu ar gyfer Cyllid 'Tu Allan i'r Ysgol' 2015/16. Y tair blaenoriaeth yw: Teuluoedd incwm isel, Teuluoedd â phlant anabl, Teuluoedd sy'n dymuno cael gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae angen i ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod; a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") pan ddaw darpariaethau'r Mesur i rym ac i'r graddau y mae'n ymwneud â darparu'r Grant.

Mae Gwasanaeth Cymorth Busnes Gofal Plant ar gael i helpu darparwyr gofal plant newydd a phresennol i sefydlu darpariaeth newydd, cynnal darpariaeth bresennol a gwella ansawdd gwasanaethau presennol, mae 3 aelod o'r tîm yn siaradwyr Gymraeg ac yn gallu cefnogi lleoliadau sy'n dymuno cynnig lleoedd Cymraeg.

Y Strategaeth Gaffael

Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn ymrwymedig i wella'r ffordd y mae'n prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith; rydym wedi nodi sut rydym yn bwriadu gwneud hyn yn ein Strategaeth Comisiynu a Chaffael (2011-2015). Dros y 3 blynedd nesaf bydd newidiadau mawr yn y ffordd rydym yn rheoli mwy na £300 miliwn sy'n cael ei wario'n flynyddol gyda chyflenwyr a chontractwyr allanol.

I sicrhau'r gwerth am arian a'r arbedion effeithlonrwydd sydd eu hangen mae'r Cyngor yn mabwysiadu dull Rheoli Categorïau i reoli a threfnu'r holl weithgareddau caffael o dan chwe chategori allweddol, a'r cyfan o fewn fframwaith strwythuredig. O ganlyniad bydd y Cyngor yn grwpio meysydd gwariant cysylltiedig ledled y Cyngor ac yn rheoli'r galw i osgoi costau a gwariant diangen. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'n partneriaid sector cyhoeddus pan fydd yn cyflwyno gwerth i'r Cyngor. Y chwe chategori allweddol yw:

- * Cymdeithasol
- * Gwasanaethau Pobl a Phroffesiynol
- * Adeiladu a Phrojectau Arbennig
- Yr Amgylchedd
- * Corfforaethol a TGCh

* Rheoli Trafnidiaeth a Chyfleusterau

Cynhelir holl brosesau caffael y Cyngor yn unol â Chyfarwyddbau a Rheoliadau Caffael yr UE, Cyfraith Cystadlu y DU a'i reolau contractau ei hun.

4. Sgiliau Ieithyddol: Cymharu Anghenion a Chapasiti Gwasanaethau

Dangosydd yr iaith Gymraeg 4 – Hyfforddiant iaith Gymraeg a Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith

Adnoddau Dynol – sgiliau
<p>DIG 4</p> <p>(a) Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg i lefel cymhwyster penodol.</p> <p>Mae 622 / 5,505 neu 11.30% o'r gweithlu (ac eithrio staff ysgolion, staff asiantaeth ac achlysurol) wedi cael hyfforddiant hyd at lefel benodol.</p>
<p>(b) Nifer a % staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.</p> <p>Mae 870 / 5,505 neu 15.80% o'r gweithlu (ac eithrio staff ysgolion, staff asiantaeth ac achlysurol) wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.</p>

* **Mae'r ffigurau hyn yn ffigurau cronus.** Cytunwyd gyda'r Comisiynydd Iaith (Medi 2014) y byddem yn dechrau cofnodi'r data diweddaraf pan fyddai'r safonau newydd yn cael eu mabwysiadu. Drwy ddefnyddio system lywodraethu DigiGov a fabwysiadwyd ond ychydig flynyddoedd yn ôl, byddem yn cael cyfrif cywir, mwy cyfredol a diweddar o hyfforddiant staff. Byddwn yn hefyd yn sicrhau bod yr holl ddata'n cael ei gofnodi'n gywir oherwydd ymddengys y bu problem wrth drosglwyddo'r system SAP i'r system DigiGov newydd lle na chafodd rhywfaint o wybodaeth mewn perthynas â chysiau ei throsglwyddo'n gywir.

Hyfforddiant iaith Gymraeg

Diben yr Hyfforddiant iaith Gymraeg yn y lle cyntaf yw datblygu sgiliau dwyieithog staff rheng flaen. Yn y dyfodol, bydd anghenion hyfforddiant yn cael eu nodi o fewn cynlluniau'r gweithlu trwy'r broses Perfformiad a Datblygiad Personol.

O fis Medi 2007 gwnaed rhestr gynhwysfawr o gyrsiau iaith Gymraeg sydd ar gael i'r holl staff rheng flaen a oedd yn dymuno dysgu neu wella eu Cymraeg. Yn sgîl niferoedd uchel yn rhoi'r gorau iddi, penderfynwyd na fyddai'r Cyngor yn darparu cyrsiau Cymraeg yn fewnol mwyach ac yn lle hynny rhoddwyd y cyfle i staff ddilyn cyrsiau Cymraeg ar amser ac mewn lle mwy cyfleus iddynt, gan gynnwys Canolfannau Addysg Gymunedol ac mewn amryw safleoedd eraill o gwmpas y Ddinas wedi'u trefnu gan Brifysgol Caerdydd. Mae'r Cyngor yn cefnogi staff rheng flaen sy'n dewis dysgu neu wella eu Cymraeg drwy dalu am y cwrs o'u dewis yn ogystal â rhoi amser i ffwrdd o'r gwaith iddynt i fynychu hyfforddiant. Mynychodd cyfanswm o **58** aelod o staff gyrsiau Cymraeg rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015. I gael y manylion llawn a rhagor o wybodaeth gweler **Atodiad VII**.

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith

Mae 40 aelod o staff lechyd a Gofal Cymdeithasol wedi mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn 2014-15. Ym mis Gorffennaf mynychodd 8 aelod o staff gwrs hyfforddi'r hyfforddwr a gynhelir gan Cwmni Iaith. Mae cwrs ymwybyddiaeth iaith gorfforaethol wrthi'n cael ei ddatblygu gan dîm Caerdydd Ddwyieithog a bydd y sesiynau cyntaf yn cael eu cynnal yn ystod haf 2015. Y bwriad yw cynnal y cyrsiau hyn yn fisol a byddant yn cael eu cyflwyno i bob cyfarwyddiaeth i dimau nad ydynt eto wedi derbyn hyfforddiant.

Modiwl e-Ddysgu yr iaith Gymraeg

Er mwyn helpu i gyflawni'r targed o ddarparu cyrsiau ymwybyddiaeth iaith yn ogystal â chysiau Cymraeg Llafar, mae pedwar cyngor wedi bod yn gweithio gyda'r Diwydiannau Dysgu i addasu'r modiwl e-ddysgu Cymraeg (a ddatblygwyd ganddynt hwy a Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar gyfer y Sector Iechyd) i awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae cynghorau Caerdydd, Caerffili, Rhondda Cynon Taf a Merthyr wedi cydweithio ar hyn, gan ddangos gwaith trawsffiniol a rhanbarthol yn ogystal ag arbedion ariannol o ran y gost o weithio fel consortiwm ad-hoc gyda Diwydiannau Dysgu.

Bydd y modiwl e-ddysgu yn cynorthwyo Cyngor Dinas Caerdydd i allu darparu cyrsiau ymwybyddiaeth i tua thraean o'i weithlu trwy'r fewnwyd, ond hefyd, fel rhan o'r cytundeb, ac er mwyn i ni gadw costau mor isel â phosibl, mae tîm Caerdydd Ddwyieithog y Cyngor wedi cyfieithu'r modiwl, sy'n golygu bod yr hyfforddiant ar gael yn gwbl ddwyieithog. Mae'r gwaith hwn i ddatblygu modiwl e-ddysgu dwyieithog yn cyfateb yn berffaith i'r Academi Cymru Gyfan arfaethedig ar gyfer Llywodraeth Leol, a arweinir gan Gyngor Dinas Caerdydd a CLILC (a'r gobaith yw y bydd yn cael ei ariannu gan gynnig ESF trwy WEFO).

Mae'r gwaith wedi parhau ym mlwyddyn ariannol 2015-16 ond mae'n cael ei nodi yma fel esiampl o arfer da a blaengynllunio gan bedwar cyngor yn Ne-ddwyrain Cymru.

5. Prif-ffrydio

Mae'r Offeryn Integreiddio Polisi wedi'i ddatblygu'n **Offeryn Sgrinio Polisi Statudol** i adlewyrchu'r cyd-destun polisi esblygol. Mae nifer o ofynion statudol yn gymwys os ydych yn datblygu strategaeth, polisi neu weithgaredd yn y Cyngor sy'n debygol o effeithio ar bobl, cymunedau neu ddefnydd tir mewn unrhyw ffordd. Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn, neu fethu â dangos sylw dyledus iddynt, olygu y gallai'r Cyngor wynebu her gyfreithiol neu geryddon o fathau eraill.

Bydd cwblhau'r Offeryn Sgrinio Polisi yn sicrhau bod holl strategaethau, polisiau a gweithgareddau Cyngor Caerdydd yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a chyfrifoldebau statudol perthnasol. Pan fo angen rhoi ystyriaeth fanylach i fater, bydd yr Offeryn Sgrinio yn nodi p'un ai a oes angen cynnal asesiad llawn o'r effaith, fel y bo'n berthnasol.

Mae'r prif ofynion statudol y mae'n rhaid i strategaethau, polisiau neu weithgareddau eu hystyried yn cynnwys y canlynol:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Bill Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru
- Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru – Cydamcanu – Cydymdrechu
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn
- Mesur y Gymraeg 2011
- Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Asesiad Amgylcheddol Strategol

Bydd yr Offeryn Sgrinio Polisi hwn yn galluogi'r Cyngor i fodloni gofynion yr holl ddarnau hyn o ddeddfwriaeth fel rhan o ddull sgrinio integredig na fydd yn cymryd mwy nag awr i'w gwblhau fel arfer. Yn bwysicach fyth, bydd yn sicrhau bod dull y Cyngor yn un cydgysylltiedig a gwybodus.

Mae'r Offeryn yn rhan o'r broses gorfforaethol. Rhaid i'r holl adroddiadau y mae angen penderfyniad cabinet llawn arnynt gwblhau blaengynllun i ddechrau. Roedd y blaengynllun yn nodi p'un ai a oes angen i'r strategaeth/polisi neu weithgaredd fod yn destun offeryn sgrinio ai peidio. Os oes angen, caiff y broses ei chwblhau cyn i'r adroddiad fynd i'r cabinet ar gyfer penderfyniad terfynol. Cafodd y dogfennau eu diweddarau ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14 a'u cynnwys ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Caiff yr offeryn ei ddiweddarau'n barhaus wrth i

swyddogion perthnasol â chyfrifoldeb dros feysydd penodol amlygu unrhyw newid i'r amgylchedd polisi. Er enghraifft, caiff yr offeryn ei ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw ofynion penodol o bolisiâu'r Cyngor sy'n tarddu o Fesur y Gymraeg. Cafodd yr offeryn hefyd ei ystyried gan grŵp annibynnol NICO fel rhan o adolygiad Comisiynydd y Gymraeg o arferion gwaith yng Nghymru. Er nad diben yr adolygiad oedd darparu adborth penodol, ystyriwyd bod y sail resymegol a'r fethodoleg yn gadarn.

Yn y ffordd hon gallwn annog proses gydgysylltiedig o wneud penderfyniadau a sicrhau bod unrhyw waith datblygu a wneir yn y Cyngor yn ymwybodol o ofynion ehangach a'r effaith bosibl ar faterion pwysig megis yr iaith Gymraeg.

I sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried fel elfen ganolog o unrhyw waith datblygu polisi mae hefyd wedi cael ei chynnwys ochr yn ochr â'r 9 nodwedd a ddiogelir a amlygwyd gan y Ddeddf Cydraddoldebau Unigol ac mae'n rhan amlwg o Mae Pawb yn Bwysig (Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor). Mae hyn yn galluogi'r iaith Gymraeg i gael ei phrif-ffrydio gyda'r 9 nodwedd a ddiogelir ym mhob rhan o'r sefydliad.

O fewn yr offeryn sgrinio ei hun, mae adran sy'n annog ystyriaeth o unrhyw effaith (cadarnhaol, negyddol, niwtral neu ansicr) ar yr iaith Gymraeg. Gweler isod:

A fydd y Polisi/Strategaeth/Project yn cael effaith wahanïaethol ar unrhyw un o'r canlynol:

- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodasau a Phartneriaethau Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd/Cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Yr iaith Gymraeg

Gellir cwblhau'r Offeryn Sgrinio fel hunanasesiad neu fel rhan o sesiwn a hwyluswyd, pe bai angen cymorth pellach arnoch.

Fel dadansoddiad critigol, mae nifer o strategaethau, cynlluniau a gweithgareddau mawr (megis y Cynllun Corfforaethol) wedi'u hystyried trwy'r offeryn sgrinio statudol, sydd wedi helpu i ddatblygu polisiâu; fodd bynnag mae'n bwysig bod ymwybyddiaeth ehangach o rywfaint o'r gofynion statudol yn cael ei hyrwyddo. Mae'n bwysig bod swyddogion ym mhob rhan o'r Cyngor yn deall naws a diben y ddeddfwriaeth, a gwneir llawer o'r gwaith hwn trwy academi Caerdydd, yn enwedig cyrsiau Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb a chysiau'r iaith Gymraeg. Gwybodaeth ategol wedi'i hatodi.

Fel rhan o'r asesiad effaith, caiff goblygiadau o ran yr iaith Gymraeg eu hystyried. Ar hyn o bryd mae'r Offeryn Asesu Effaith yn ystyried yr iaith Gymraeg yng nghyd-destun y Cynllun Iaith ond mae hefyd yn cydnabod gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg. Yn unol ag unrhyw ofynion penodol a nodir gan y Comisiynydd Iaith newydd, caiff yr Offeryn Sgrinio ei addasu i sicrhau bod ein strategaethau, polisiau a gweithgareddau yn cael eu herio i sicrhau eu bod yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw gyfarwydddeb neu achosion o arfer da.

Gellir sicrhau bod pob asesiad a gwblheir ar gael, ac mae prosesau wedi'u sefydlu i sicrhau bod yr holl strategaethau, polisiau a gweithgareddau newydd yn cael eu hasesu, os oes angen, drwy'r Offeryn Sgrinio. Ar ôl sicrhau bod yr iaith Gymraeg wedi'i chynnwys yn yr offeryn, mae'r Cyngor wedi gwneud yn siŵr ei bod yn ystyriaeth gorfforaethol, a bod yr holl gyfarwyddiaethau yn ei hystyried wrth ddatblygu polisiau, strategaethau a gweithgareddau newydd. Cyfrifoldeb y gwasanaethau perthnasol yw sicrhau bod y Tîm Corfforaethol yn ymwybodol o unrhyw ddiweddariadau priodol ar gyfer meysydd polisi penodol. Er enghraifft, bydd Caerdydd Ddwieithog yn cynghori ar unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol i'r offeryn sgrinio mewn ymateb i ofynion polisi newydd mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

Cynllunio busnes

Cynllun Corfforaethol: Bodloni Ein Gofynion Statudol

Mae'r Cynllun Corfforaethol a phroses cynllunio corfforaethol y Cyngor yn galluogi'r Cyngor i ddiwallu ei ddyletswyddau mewn meysydd allweddol. Mae cyfrifoldebau pwysig megis ymateb i Raglen Cymru ar gyfer Gwella, cyflawni yn erbyn y Cytundeb Canlyniadau gyda'r Llywodraeth a bod mewn sefyllfa dda i gyflawni yn erbyn gofynion deddfwriaeth newydd megis Bil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu hystyried fel rhan o'n proses cynllunio corfforaethol. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwmo i'w holl oblygiadau statudol, megis y dyletswyddau a fynegir yn y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl a Mesur y Gymraeg a fynegir yn y Cynllun Corfforaethol. (t6).

Mae hyn yn llywio Cynlluniau Busnes Cyfarwyddiaethau, amcanion tîm ac amcanion perfformiad unigol. Caiff materion polisi trawsbleidiol felly eu hamlygu yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor fel sail i waith Cynllunio Busnes yn y sefydliad.

Cafodd Strategaeth Partneriaeth Caerdydd, '**Beth sy'n Bwysig: Strategaeth 10 Mlynedd Caerdydd**' ei chyhoeddi yn 2011, ac mae'n nodi'r 7 'canlyniad' strategol sef y 7 prif gyflwr lles y mae'r holl bartneriaid yn y ddinas wedi ymrwmo i'w darparu. Mae'r 7 canlyniad fel a ganlyn:

Mae pobl yng Nghaerdydd yn iach

Mae gan bobl yng Nghaerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy

Mae pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Mae gan Gaerdydd economi sy'n ffynnu ac yn llewyrchu
Mae pobl Caerdydd yn cyflawni eu llawn botensial
Mae Caerdydd yn lle da i fyw, gweithio a chwarae ynddo
Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, gyfiawn a chynhwysol

Mae 'Beth sy'n Bwysig' yn seiliedig ar asesiad anghenion cynhwysfawr yn ogystal â rhaglen ymgynghori ac ymgysylltu helaeth i helpu i nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y ddinas.

Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Caerdydd wedi'i strwythuro o amgylch y canlyniadau hyn, gan nodi cyfraniad y Cyngor tuag at Beth sy'n Bwysig a darparu cysylltiad rhwng y dogfennau. Mae materion yr iaith Gymraeg yn thema amlwg, gyda gwasanaethau, diwylliant a chyfathrebu drwy'r Gymraeg yn cael eu nodi dan bob un o'r canlyniadau yn y cynlluniau hyn. Fodd bynnag, mae materion yr iaith Gymraeg i'w gweld yn amlwg dan ddau ganlyniad: 'Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, gyfiawn a chynhwysol' ac 'Mae pobl yng Nghaerdydd yn cyflawni eu llawn botensial'. Er enghraifft, mae'r canlyniad 'teg, cyfiawn a chynhwysol' yn canolbwyntio ar ein hymrwymiad i Ddeddf yr iaith Gymraeg a'n hymrwymiad i barhau i ddarparu ar gyfer y galw cynyddol am wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Yn yr un modd, mae'r canlyniad 'llawn botensial' yn canolbwyntio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg, chwaraeon, hamdden a chwarae. Mae'r ymrwymiad strategol hwn yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg yng Nghaerdydd. Mae hefyd yn sicrhau bod Camau Gweithredu'r iaith Gymraeg yn cael eu cynnwys yn y broses cynllunio busnes, gyda chamau gweithredu gwasanaethau gan adlewyrchu'r dibenion strategol ehangach.

Mae Pawb yn Bwysig - Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Gosododd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd ar bob awdurdod lleol i greu Cynllun Cydraddoldeb Strategol. 'Mae Pawb yn Bwysig' yw Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Dinas Caerdydd, ac mae'n dangos amcanion cydraddoldeb strategol y Cyngor. Datblygwyd y cynllun strategol yn ystod 2011 ac fe'i cyhoeddwyd ar 2 Ebrill 2012.

Daw'r amcanion dan 7 canlyniad y Strategaeth Beth sy'n Bwysig (fel y rhestrwyd uchod). Gan fod yr asesiad anghenion wedi datgelu bod anghydraddoldeb yn y ddinas yn golygu her fawr i'r holl bartneriaid, roedd angen i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol ymdrin â'r materion hyn. Gwnaed rhagor o waith i ystyried yr asesiad anghenion yng nghyd-destun y '9 nodwedd a ddiogelir', a'r iaith Gymraeg, i ddeall ymhellach lle gallai'r Cyngor gymryd camau.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, 'Mae Pawb yn Bwysig', felly yn ceisio ymdrin â'r anghydraddoldebau a nodwyd dan 7 canlyniad Caerdydd, gyda ffocws penodol ar y 9 nodwedd a ddiogelir a'r iaith Gymraeg, fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r strategaeth yn cynnwys sylwadau o ganlyniad i ymgynghoriad gyda Fforwm yr Iaith Gymraeg.

Hyfforddiant Cydraddoldeb

Yn 2014/15 roedd amrywiaeth o hyfforddiant / briffiau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael i gyflogeion ac aelodau. Mae'r rhain yn cynnwys:
Sesiynau Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth trwy'r Academi
Sesiynau hyfforddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb trwy'r Academi
Sesiwn frifio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Gyllideb trwy'r Tîm Cydraddoldeb
Sesiynau hyfforddi ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Gyllideb i aelodau'r Pwyllgor Craffu (mae'r broses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn dal i gynnwys yr iaith Gymraeg) trwy'r Tîm Cydraddoldeb.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Cyngor yn parhau i asesu ei brif bolisiau a swyddogaethau o ran yr effaith ar gydraddoldeb. Mae'r holl asesiadau allweddol a gynhaliwyd yn ystod 2014/15 yn cynnwys:
Rhoi'r strategaethau llyfrgelloedd a hybiau cymunedol ar waith
Rhanbartholi'r Gwasanaethau Rheoliadol
Cyllideb 2015/16 y Cyngor
(Mae'r broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn dal i gynnwys yr iaith Gymraeg)

Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyeithog

Yn 2014-15 sefydlwyd Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyeithog i symud agenda Caerdydd Ddwyeithog yn ei blaen, yn dilyn cynhadledd Caerdydd Ddwyeithog a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2014. Mae'r grŵp yn cynnal cyfarfodydd bob chwarter i fonitro perfformiad yn erbyn y Cynllun Iaith Gymraeg, gweithredu fel grŵp cyfeirio ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a rhoi llais i ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr. Nod y grŵp yw cymryd rôl arweiniol ar y cyd â'n sefydliadau partner wrth ddatblygu Caerdydd wirioneddol ddwyeithog lle gall dinasyddion a staff Cyngor Dinas Caerdydd ddefnyddio gwasanaethau a chymorth yn y ddwy iaith yn gydradd.

Cyfarfodydd 2014-15

8 Ebrill 2014 - Trafododd aelodau arfer gorau ac ymchwiliad safonau Comisiynydd y Gymraeg a sut i sicrhau bod cyfarwyddiaethau'n barod ar gyfer y gofynion newydd.

17 Medi 2014 – Trafododd aelodau ddatblygiad arfaethedig Canolfan Gymraeg yng Nghaerdydd gyda phartneriaid Cymraeg blaenllaw i symud agenda Caerdydd Ddwyeithog yn ei blaen.

11th Chwefror 2015 – Trafododd aelodau yr adroddiad ar gynnydd yn erbyn Safonau'r Cymraeg y gofynnwyd i gyfarwyddiaethau ei gwblhau. Trafodwyd yr archwiliad arwyddion a gwblhawyd gan bob cyfarwyddiaeth yng nghyd-destun y Safonau Cymraeg arfaethedig, yn

ogystal â'r Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Gorfforaethol a'r angen i sicrhau bod gallu timau rheng flaen i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn cael ei asesu.

Canllaw Dylunio i Fyw Caerdydd

Mae'r Cyngor wrthi'n cwblhau Canllaw Cynllunio i Fyw Caerdydd a gaiff ei gyhoeddi ym mis Mai 2015 ac sy'n nodi sut y bydd datblygiadau newydd yn helpu Caerdydd i fod y brifddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop.

Mae'n egluro uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer creu lleoedd, dylunio trefol a phensaernïaeth a fydd yn cael eu trosi i safleoedd datblygu strategol ledled y ddinas.

Mae'r canllaw'n cynnwys 10 'egwyddor uwchgyllunio' sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg. Y nod yw creu cymdogaethau da i fyw ynddyn nhw, drwy gynllunio a dylunio da.

Uchelgais y Cyngor yw bod datblygiadau newydd ymhlith y gorau yn y DU ac Ewrop o ran dangosyddion ffordd dda o fyw allweddol, megis:

- ansawdd bywyd,
- hunaniaeth,
- mannau gwyrdd a chyhoeddus,
- trafnidiaeth a chynaliadwyedd.

Mae'r canllaw hwn ar gyfer datblygiadau mawr, pan fo cymunedau newydd yn cael eu creu ac a fydd yn effeithio ar Gaerdydd a'r Dinas-Ranbarth.

O ran yr iaith Gymraeg, mae'r canllaw yn bwriadu cyflawni:

Llefydd dwyieithog lle gall pobl gydnabod a dathlu'r dirwedd, bioamrywiaeth a gwerth treftadaeth. Nodweddion sydd wedi'u hintegreiddio'n gadarnhaol â'r ardal i ddatblygu cymeriad unigryw Caerdydd a Chymru a mynegi'r unigolrwydd hwn.

I sicrhau hyn mae'r canllaw yn nodi y disgwylir i ddatblygwyr wneud y canlynol:

03. Amlinellu pa elfennau o bensaernïaeth Gymreig (neu bensaernïaeth draddodiadol Caerdydd) a'r Gymraeg a ddefnyddir mewn ardaloedd cymeriad a phensaernïaeth a pham. Ceisio dehongliad gwreiddiol ac edrych y tu hwnt i driniaeth ffasâd â manylion pastiche.

04. Nodi sut y defnyddir y Gymraeg wrth enwi llefydd, strydoedd a chyfleusterau.

Mae'r canllaw llawn ar gael ar [wefan y cyngor](#)

6. Dadansoddi Perfformiad yn ôl Blaenoriaeth a Tharged

System Gwella Caerdydd (CIS), sydd ar safle mewnwyd Cyngor Dinas Caerdydd, yw prif offeryn yr awdurdod ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â Chynllun yr Iaith Gymraeg. Mae'r holl fesurau yn Amserlen y Cynllun ar gyfer Gwella wedi'u nodi ar y gronfa ddata ofynnol ar CIS. Mae pob cam yn ymddangos yn erbyn pob un o'r cyfarwyddiaethau er mwyn sicrhau bod y cyfarwyddiaethau yn ymwybodol o bob cam, cyfrifoldeb a dyddiad targed.

Bydd Cydlynwyr Iaith a Chydlynwyr Ansawdd Cyfarwyddiaethau sy'n edrych ar achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â'r Cynllun fel rhan o'u gwaith yn eu cofnodi fel Camau Gwella gofynnol (IACTs) ar CIS.

Caiff camau hwyr eu trafod yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli lle y bo'n briodol a chaiff camau eu diweddarau'n briodol. Mae hyn yn sicrhau bod Rheolwyr ac Uwch Swyddogion yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth yn ogystal â meysydd i'w gwella yn eu cyfarwyddiaeth.

7. Cyhoeddi Gwybodaeth am Berfformiad

Ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gymeradwyo a'i gyflwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Iaith, caiff ei gyhoeddi ar wefan ddwyieithog y Cyngor dan www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog.

Bydd y Cyngor hefyd yn rhoi gwybod i ddinasyddion am yr adroddiad drwy gyhoeddi erthygl a'r ddolen uchod ym mhapur newydd dwyieithog yr awdurdod, Llais y Ddinas, a anfonir i 150,000 o gartrefi yng Nghaerdydd.

Yn ogystal, mae'r cyngor yn paratoi adroddiad perfformiad mewnol yn chwarterol ac yn flynyddol, yn ogystal â chyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Gwella perthnasol sy'n nodi'r camau penodol mewn perthynas â'r holl feysydd cydraddoldeb, gan gynnwys y Gymraeg.

8. Gwybodaeth Ychwanegol

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) (2013) yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn rhoi gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Cafodd y cynlluniau cyntaf dan y trefniadau statudol newydd eu rhoi ar waith o 1 Ebrill 2014 a byddant yn cael eu defnyddio tan fis Mawrth 2017. Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymeradwyo'r Cynllun a gyflwynwyd, cymeradwyo'r Cynllun gyda diwygiadau neu wrthod y Cynllun a chael yr awdurdod i baratoi un arall.

Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar y targedau yn y Strategaeth Addysg Gymraeg a disgwylir i awdurdodau lleol adrodd yn flynyddol ar berfformiad yn erbyn y targedau hyn, sef:

- mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel canran o garfan Blwyddyn 2
- mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau ieithyddol wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- mwy o ddysgwyr yn astudio i ennill cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg
- mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- mwy o ddysgwyr â sgiliau gwell yn y Gymraeg
- safonau cyrhaeddiad mewn Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith
- darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
- cynllunio'r gweithlu a pharhau â datblygiad proffesiynol

Ymgynghorodd yr awdurdod lleol â rhestr o randdeiliaid rhagnodedig fel y nodir yn Neddf 2013 wrth i'r Cynllun gael ei baratoi, a chaiff y Cynllun ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a chopïau eu rhoi yn ei swyddfeydd.

Caiff y Cynllun ei gymeradwyo ar y lefel uchaf yn lleol, a chaiff y Cynllun ei roi ar waith gydag awdurdod a chefnogaeth lawn Cyngor Dinas Caerdydd.

Caerdydd Ddwyeithog

Cafodd 'Uned yr Iaith Gymraeg' Cyngor Dinas Caerdydd ei hailenwi'n Caerdydd Ddwyeithog - yn dilyn penderfyniad yn y Cyngor llawn - ym mis Mehefin 2014. Yn dilyn y Gynhadledd Caerdydd Ddwyeithog ym mis Mehefin 2014 a sefydlu Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyeithog, ac er mwyn sicrhau cysondeb, cytunwyd hefyd y byddai Uned yr Iaith Gymraeg yn cael ei hail-frandio fel 'Caerdydd Ddwyeithog' mewn ymateb rhagweithiol i ddeddfwriaeth ddiweddar yr iaith Gymraeg a'r hinsawdd economaidd heriol.

Fel y brifddinas, Caerdydd yw'r porth i Gymru ac mae'n cydnabod bod rhaid i'w gweithredoedd adlewyrchu diwylliant a dyheadau Cymru yn gyffredinol yn ogystal â'i dinasyddion ei hun, ac mae effaith iaith a diwylliant o ran hyrwyddo'r ddinas yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei gydnabod. Hefyd, roedd Caerdydd yn un o'r ychydig siroedd yng Nghymru a welodd dwf yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn y cyfrifiad diwethaf gyda dros chwarter o'n plant a phobl ifanc yn y grŵp oedran 5-15 oed nawr yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Rydym yn prysur ddod yn ddinas ddwyieithog ac rydym eisiau sicrhau bod yr iaith yn parhau i ffynnu yn y ddinas. Ein dyletswydd ni fel Prifddinas Cymru yw diogelu a meithrin yr iaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, er mwyn iddyn nhw ystyried dwyieithrwydd fel rhywbeth cyffredin a chael y cyfle i ddefnyddio'r ddwy iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd.

Fel rhan o'r dull 'cyngor cydweithredol', bydd Caerdydd Ddwyeithog yn cymryd rôl ymgynghorol ar gyfer sefydliadau eraill, tra'n parhau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth bellach o'r iaith Gymraeg ledled y ddinas trwy drefniadau cydweithio gwell sydd, mewn tro, yn rhoi llai o bwysau ar gostau.

Mae'r dull newydd arloesol hwn yn ymwneud â chael gwared â'r rhwystrau rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, hyrwyddo dwyieithrwydd fel rhywbeth cwbl naturiol a bod yr un mor falch o'r ddwy iaith swyddogol yma yng Nghaerdydd er mwyn sicrhau bod ein gweledigaeth ni o Gaerdydd fwy dwyieithog yn cael ei gwireddu.

Eisteddfod Genedlaethol 2014

Roedd Cyngor Dinas Caerdydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli i hyrwyddo ein gwasanaethau ac i ymgysylltu â'r cyhoedd yn un o ddigwyddiadau diwylliannol mwyaf Ewrop. Gan weithio mewn partneriaeth â phedwar awdurdod yn Ne-ddwyrain Cymru, sef Sir Fynwy, Torfaen, Caerffili a Rhondda Cynon Taf, roedd y Cyngor yno am yr wythnos.

Mynychodd gwirfoddolwyr o gyfarwyddiaethau'r Cyngor yr ŵyl i roi gwybodaeth i'r cyhoedd a hyrwyddo amryw ddigwyddiadau a gwasanaethau yn ogystal â hyrwyddo Caerdydd fel cyrchfan ymwelwyr. Yn dilyn cynhadledd Caerdydd Ddwyeithog a sefydlu Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyeithog, yn ogystal â'r cyhoeddiadau diweddar yn gysylltiedig â chefnogaeth y Cyngor ar gyfer agor canolfan Gymraeg newydd yn y ddinas, roedd yn bwysig i'r Cyngor fod yn yr Eisteddfod a dangos cefnogaeth i ddigwyddiad diwylliannol Cymraeg blynyddol.

Mae Caerdydd wedi gweld cynnydd yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg dros y degawdau diwethaf ac mae'n hollbwysig bod yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn elfen allweddol wrth hyrwyddo'r ddinas. Roedd hefyd yn gyfle i swyddogion y Cyngor drafod y brand 'Caerdydd Ddwieithog' newydd gydag ymwelwyr, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r iaith trwy gydweithio'n well â thrydydd partïon a thrwy gael gwared ag unrhyw rwystrau rhwng yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Mewn cyfnod o bwysau cyllidebol sylweddol, trwy weithio'n well gyda phartneriaid, ein nod yw gwireddu ein gweledigaeth o gynyddu dwyieithrwydd Caerdydd a dathlu'r ddwy iaith yn gyfartal.

Yn ogystal â thrafod datblygiadau o ran yr iaith Gymraeg, roedd hefyd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o Sgwrs Caerdydd, hyrwyddo gwasanaethau eraill y Cyngor megis yr hybiau cymunedol newydd er enghraifft, yn ogystal â rhoi'r cyfle i wasanaethau amlygu ymgyrchoedd a materion penodol megis Bentyca Arian Anghyfreithlon.

Ein thema ar gyfer yr wythnos oedd 'Y Pethau Bychain' a oedd yn ceisio hyrwyddo syniadau i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Fel Cyngor rydym wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaethau o'r un safon yn Gymraeg a Saesneg, ac yn ystod yr wythnos hon ein nod oedd codi ymwybyddiaeth o'r holl wasanaethau Cymraeg a ddarparwn, e.e. C2C. Roedd ein thema hefyd yn cyd-fynd â lansiad ymgyrch newydd y Llywodraeth o'r un enw sy'n ceisio cynyddu ein defnydd o'r iaith Gymraeg drwy rannu syniadau ac ysbrydoli eraill i wneud yr un peth trwy Twitter gan ddefnyddio'r hashnod #pethaubychain. Drwy annog newidiadau ymddygiadol a thrwy wneud defnydd ehangach o'r iaith ein nod yw sicrhau ein bod ni'n adeiladu ar lwyddiannau degawdau blaenorol i sicrhau bod Caerdydd yn parhau i fod yn ddinas ddwyieithog ffyniannus.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Mae TGCh wedi rhoi pecynnau iaith Gymraeg ar waith ar gyfer yr holl ddefnyddwyr Citrix sy'n caniatáu i gwsmeriaid ddefnyddio'r Geiriadur Cymraeg a'r gwiriwr sillafu ar Microsoft Office. Mae TGCh hefyd yn parhau i ymchwilio i dechnolegau newydd a'r posibiliad o ddefnyddio'r rheiny'n ddwyieithog.

Bydd TGCh yn parhau i ddefnyddio dogfen cymorth cwsmeriaid i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth gynllunio'r gwaith o ddatblygu / prynu systemau TG newydd yn yr awdurdod. Bydd TGCh yn parhau i roi pwyslais ar y gofyniad i ddefnyddio dull dwyieithog gydag unrhyw raglenni a phrojectau yn y dyfodol sydd ag elfennau sy'n ymdrin â'r cyhoedd.

Mae'r rhaglen Ymwybyddiaeth Iaith wedi'i chyflwyno i'r mwyafrif o staff yn TGCh yn unol â gofynion y Cynllun Iaith. Bydd TGCh yn parhau i gyflwyno'r rhaglen Ymwybyddiaeth Iaith i'r aelodau hynny o staff nad ydynt wedi mynychu sesiynau blaenorol.

Bydd TGCh yn parhau i ymchwilio i dechnolegau newydd a all gynorthwyo â phrofiadau cwsmeriaid iaith Gymraeg wrth ddelio â'r awdurdod.

Mae meddalwedd Cysgliad ar gael a gellir gofyn amdano trwy Ddesg Gymorth TGCh. Mae negeseuon atgoffa ynghylch argaeledd y feddalwedd hon wedi bod yn cael eu hanfon yn rheolaidd at staff trwy erthyglau 'Materion Cymraeg' ac 'Your Inbox'.

Rhagdudalen

Trwy ychwanegu rhagdudalen ddwyieithog at wefan gwbl ddwyieithog y Cyngor rydym yn gobeithio y bydd mwy o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r wefan yn eu dewis iaith fel bod mwy o bobl yn defnyddio'r tudalennau Cymraeg. Byddwn yn parhau i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y rhagdudalen i sicrhau ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar gwsmeriaid sy'n defnyddio cyfleuster ar-lein y Cyngor.

Cyfeiriadau E-bost Personol / Cyffredinol

Mae'r Cyngor wedi rhoi ei system bost ddwyieithog ar waith fel bod modd cysylltu â phob aelod o staff sydd â chyfeiriad e-bost nid yn unig ar y cyfeiriad @cardiff.gov.uk ond hefyd ar @caerdydd.gov.uk e.e. byddai person@cardiff.gov.uk hefyd yn derbyn post i'r un blwch post ar person@caerdydd.gov.uk. Mae blychau post hefyd wedi'u cyfieithu i ganiatáu cyfeirio post i'r un blwch post e.e. bydd libraries@cardiff.gov.uk hefyd yn derbyn post ar llyfrgelloedd@caerdydd.gov.uk i sicrhau parhad busnes trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Caerdydd Ddwyieithog yn sicrhau bod yr holl flychau post a hysbysebair yn cael eu cyfieithu a'u hactifadu gan TGCh.

Gweithio gyda phartneriaid

Yn dilyn ymlaen o gynhadledd Caerdydd Ddwyieithog a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2014 ac a fynychwyd gan dros 40 o'n partneriaid, rhanddeiliaid a sefydliadau trydydd parti. Mae'r GACDD yn cynnal cyfarfodydd chwarterol i fonitro perfformiad yn erbyn y cynllun iaith, i weithredu fel grŵp cyfeirio ar faterion Cymraeg, a chynnig llais i ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaethau. Nod y grŵp yw cymryd rôl arweiniol, ar y cyd â'n sefydliadau partner, wrth ddatblygu Caerdydd gwbl ddwyieithog lle gall dinasyddion a staff Cyngor Dinas Caerdydd gael gafael ar wasanaethau a chymorth yn y ddwy iaith yn gydradd.

Un o'r prif syniadau a gyflwynwyd yn y gynhadledd oedd sefydlu canolfan Gymraeg yng Nghaerdydd. Yn unol â chymeradwyaeth y Cabinet, byddai'r ganolfan Gymraeg yn ganolbwynt ar gyfer ymgysylltu â phobl ag amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Byddai'r ganolfan yn agored a chynhwysol, yn cynnig cyfleoedd i brofi'r iaith Gymraeg ac yn darparu pecyn o weithgareddau sy'n ychwanegu gwerth i gynnyg Gaerdydd.

Byddai'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd, gan gynnwys caffi-bar, siop lyfrau, ystafelloedd addysgu, ardal arddangos hyblyg, ardal berfformio a chyfleusterau cynadledda. Byddai'n dathlu diwylliant Cymreig ac yn ganolfan hygyrch ar gyfer addysg lle gall pobl ddysgu neu ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch cymdeithasol a chyfeillgar. Gallai hefyd gael ei defnyddio fel lab ymchwil ar iaith a dwyieithrwydd ar y cyd â phartneriaid eraill.

Byddai'r ganolfan yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng Nghaerdydd ac yn creu cyfleoedd newydd i bobl gymdeithasu, cyfranogi a mynegi eu hunain. Byddai'n gartref i nifer o sefydliadau Cymraeg, gan ychwanegu gwerth a chodi eu proffil, a byddai'n cynnal amrywiaeth o ddiwyddiadau a chyfleoedd i ymwelwyr, pobl ifanc a dysgwyr Cymraeg yn benodol. Fodd bynnag, y pwynt gwerthu unigryw fyddai'r man agored o safon uchel yng nghalon y ddinas y gall pobl a chymunedau ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n hyrwyddo iaith, diwylliant a threftadaeth y ddinas.

Archwiliad o Arwyddion ac Adroddiad ar Gynnydd o ran y Safonau

Yn dilyn cyfarfod Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwieithog (GACDd) cytunwyd y dylai'r holl gyfarwyddiaethau gwblhau archwiliad o arwyddion ym mhob un o Ystadau'r Cyngor, i'w drafod yn eu cyfarfod ym mis Chwefror. Mae gan y mwyafrif o adeiladau'r Cyngor arwyddion dwyieithog ar y tu allan a'r tu mewn, gyda'r Saesneg yn ymddangos yn gyntaf yn y mwyafrif o achosion. Gyda'r safonau Cymraeg arfaethedig dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi y dylai'r Gymraeg ymddangos yn gyntaf, cytunwyd y dylid oedi o ran rhoi cyfarwyddyd corfforaethol ynghylch caffael arwyddion tan fod y Cyngor yn cael hysbysiad i gydymffurfio gan y comisiynydd iaith. Roedd yr archwiliad o arwyddion hefyd yn gyfle i atgoffa rheolwyr sy'n gyfrifol am arwyddion o'r angen i sicrhau y dylai'r holl arwyddion newydd a'r rhai sy'n cael eu newid, gan gynnwys arwyddion mewnol i staff, fod yn ddwyieithog yn unol â'r cynllun iaith.

Gofynnwyd hefyd i'r holl gyfarwyddiaethau adrodd ar gynnydd hyd yn hyn yn erbyn y safonau rheoleiddio drafft ac unrhyw fesurau gwella sydd ganddynt. Fel yr adroddir yn ymateb y Cyngor i'r rheoliadau safonau drafft ym mis Ebrill 2014, mae Cyngor Dinas Caerdydd eisoes yn cydymffurfio â thua 80% o'r safonau newydd arfaethedig. O'r safonau sy'n weddill nad ydynt yn cael eu harfer dan ein cynllun iaith ar hyn o bryd, ni wnaeth y mwyafrif o gyfarwyddiaethau amlygu unrhyw broblemau mawr a byddent yn aros am gyfarwyddyd corfforaethol mewn perthynas â safonau penodol. Cododd rhai gyfarwyddiaethau bryderon ynghylch yr effaith ar adnoddau a'u capasiti i ddiwallu'r safonau hyn. Trafodwyd yr ymatebion yng nghyfarfod y GACDd ym mis Chwefror.

Caiff cyfarwyddyd corfforaethol ei gyhoeddi ar ôl cael hysbysiad i gydymffurfio gan y comisiynydd iaith.

Llyfrgell Ganolog Caerdydd

Roedd cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg yn ffactor yng nghynllun dylunio'r Llyfrgell Ganolog newydd ac mae'r holl ganllawiau yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'r prif arwyddbyst ac arwyddion stoc priodol hefyd mewn Braille sydd hefyd yn ddwyieithog. Dyma fydd yr achos hefyd pan gaiff y Llyfrgell ei hadnewyddu'n helaeth yn 2015.

Mae Llyfrgellydd Cymraeg yn y Llyfrgell sy'n gyfrifol am stoc ac ymholiadau yn gysylltiedig â Chymru, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn ysgrifenedig neu ar lafar. Mae'r holl lyfrgelloedd, y llyfrgell ganolog a llyfrgelloedd cangen yn cadw casgliadau o ddeunydd Cymraeg cyfoes o

amryw feintiau, gyda'r llyfrgell ganolog yn cadw'r casgliad mwyaf. Mae'r llyfrgell yn cadw casgliad mawr o ddeunydd Cymraeg; llyfrau, papurau newydd a chofnodolion, gyda'r mwyafrif yn dyddio o'r 17eg ganrif ymlaen, ynghyd â chasgliad pwysig o lawysgrifau.

Mae'r holl staff yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd o Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a'r strategaethau i'w gweithredu os yw cwsmeriaid am ddefnyddio'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y rhaglen hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

Roedd pabell y llyfrgell yn boblogaidd iawn eto yng ngŵyl Tafwyl 2014. Roedd yn gyfle gwych i hyrwyddo Her Ddarllen yr Haf i blant y ddinas sy'n siarad Cymraeg ac annog y rheiny a gofrestrodd i ddarllen llyfrau Cymraeg i gwblhau'r her.

Mae'r Llyfrgell Ganolog yn cynnal 'Clwb Llyfrau Cymraeg' a hefyd yn cefnogi tri grŵp darllen arall drwy gyfrwng y Gymraeg mewn gwahanol rannau o'r ddinas mewn partneriaeth â Merched y Wawr, sy'n darparu'r deunydd darllen.

Menter Caerdydd

Mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caerdydd, mae Menter Caerdydd wedi datblygu'r gwasanaethau canlynol:

1. Mae Menter Caerdydd yn darparu 6 sesiwn Chwarae mynediad agored drwy gyfrwng y Gymraeg bob dydd yn ystod y gwyliau ysgol yn Llanedern, Trowbridge, Trelái, Sblot a Gabalfa. Mae dros 850 o blant yn mynychu'r sesiynau chwarae am ddim bob wythnos yn ystod y gwyliau ysgol ac mae nifer ohonynt yn cael y cyfle i fwynhau gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf.
2. Mae Menter Caerdydd hefyd yn cynnig cyfleoedd chwarae am ddim drwy gyfrwng y Gymraeg i blant mewn nifer o barciau ledled y ddinas yn ystod y gwyliau haf. Trefnir y gweithgareddau hyn ym Mharc Hayley, Ystum Taf a Chaeau Llandaf, Pontcanna. Ar gyfartaledd mae dros 525 o blant yn mynychu yn ystod yr wythnos.
3. Mae Darpariaeth Gofal Cymraeg Menter Caerdydd yn ystod y tymor hefyd yn mynd o nerth i nerth. Cafwyd cyllid ychwanegol hefyd gan Glybiau Plant Cymru trwy Gyngor Dinas Caerdydd eleni i sefydlu cynllun Gofal Chwaraeon yn ardal Gogledd Caerdydd. Mae'r cynlluniau gofal yn cynnig gofal dydd llawn drwy gydol y gwyliau ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg i blant rhwng 4 a 11 oed. Mae ein cynlluniau wedi'u lleoli yn Nhreganna, yr Eglwys Newydd a Gabalfa. Ar gyfartaledd mae dros 650 o blant yn mynychu'r cynlluniau gofal bob wythnos.
4. Fe drefnon ni gyrsiau hyfforddi achrededig drwy gydol y flwyddyn i'n holl staff Chwarae a Gofal er mwyn sicrhau ein bod ni'n diwallu canllawiau AGGCC ac i sicrhau bod ein gwasanaethau yn cael eu rhedeg mewn modd proffesiynol, diogel a llwyddiannus. Rydym yn cyflogi tua 52 aelod o staff y flwyddyn yn ein gwasanaethau Gofal a Chwarae.
5. Derbyniodd Menter Caerdydd 2il Gytundeb Lefel Gwasanaeth gan Adran Dysgu yn y Gymdogaeth Cyngor Dinas Caerdydd i ddarparu Cyrsiau Hyfforddiant achrededig trwy gyfrwng y Gymraeg yn targedu pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed. Mae'r cyrsiau hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda lefelau presenoldeb uchel iawn ac adborth cadarnhaol iawn. Eleni rydym yn disgwyl y bydd dros 150 o fyfyrwyr

newydd wedi derbyn hyfforddiant achrededig mewn amryw bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn partneriaeth â Menter Caerdydd a Chyngor Dinas Caerdydd.

6. Mae Menter Caerdydd yn parhau i ddarparu pecyn Addysg i Oedolion llwyddiannus trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Thîm Dysgu yn y Gymdogaeth Cyngor Caerdydd. Eleni, darparwyd 24 dosbarth nos wythnosol a 2 gwrs dydd trwy gyfrwng y Gymraeg; Coginio, Gitâr, loga, Hanes Lleol, Dylunio'r We, Ffotograffiaeth, Gwnïo, Ysgrifennu Barddoniaeth ac ati. Eleni, gwnaeth 311 o oedolion gymryd rhan mewn un neu ragor o gyrsiau. Cynhaliwyd arolwg Estyn yn ystod Ionawr 2012 lle cafodd Gwasanaeth yr Iaith Gymraeg adborth da ac roedd Estyn yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarparwn.
7. Mae Menter Caerdydd yn trefnu pecyn cynhwysfawr o weithdai trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod pob cyfnod gwyliau yn targedu plant a phobl ifanc rhwng 4 a 13 oed. Mae'r pecyn yn cynnwys y Celfyddydau, Cerddoriaeth, Coginio, Technoleg, Chwaraeon a Drama. Mae dros 1100 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn gydol y flwyddyn ac mae dros 63 o weithdai wedi'u trefnu.
8. Cafodd Tafwyl – Gŵyl Gymraeg Caerdydd ei chynnal ym mis Gorffennaf dros gyfnod o 7 diwrnod a daeth dros 16,534 o bobl i'r wyl yn 2014, sef cynnydd o 35.9% mewn presenoldeb o gymharu â 2013. Llwyddodd Menter Caerdydd i weithio'n effeithiol â dros 68 o bartneriaid eleni i sicrhau bod Gŵyl Tafwyl yn llwyddiant ac yn blatfform cryf i'r iaith Gymraeg yn rhaglen gwyliau haf Caerdydd.
9. Mae Menter Caerdydd, mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caerdydd, yn derbyn Cytundeb Lefel Gwasanaeth i drefnu gwasanaethau Hamdden wythnosol i deuluoedd a phlant yng Nghaerdydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod 2013, fe drefnon ni 20 o glybiau hamdden wythnosol yn amrywio o Nofio, Pêl-droed, Rygbi, Gymnasteg, Tennis, Athletau, Criced, Dawns ac ati. Ar gyfartaledd mae dros 529 o blant yr wythnos yn mynychu'r clybiau hyn. Mae'r galw am wasanaethau hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg yn uchel a'n nod yw gallu datblygu'r gwasanaeth mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caerdydd dros y flwyddyn nesaf.
10. Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caerdydd a 6 phartner Cymraeg craidd i sefydlu Canolfan Ddiwylliannol Gymraeg yng Nghanol Dinas Caerdydd o 2015 ymlaen.

9. Manylion Cyswllt

Dylai unrhyw ymholiadau gael eu cyfeirio i:

Caerdydd Ddwyieithog
Ystafell 400
Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

02920 872527
Caerdydd-ddwyieithog@caerdydd.gov.uk

Atodiad I

Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol – ‘Mwy na Geiriau’

Cyngor Dinas Caerdydd - Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Cynllun Gweithredu 2014/15

Amcan Strategol 1: Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a darparwyr Gofal Cymdeithasol i weithredu dull systematig i wasanaethau Cymraeg fel elfen allweddol o gynllunio a darparu gwasanaethau

Camau o'r Strategaeth	Camau i'r gyfarwyddiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Cyfrifoldeb Arweiniol	Cwblhawyd erbyn diwedd y flwyddyn
1.1.2 Dan arweinyddiaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, adrannau i sefydlu proffil cymunedol yr iaith Gymraeg a defnyddio'r wybodaeth hon fel sylfaen ar gyfer cynllunio gwasanaethau lleol	<ul style="list-style-type: none"> Proffil cymunedol y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn ôl ward Casglu proffil o wasanaethau cymorth a chyfluoedd cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg e.e. clybiau cinio drwy gyfrwng y Gymraeg. 	Cyfarwyddwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sian Walker (SW)	1 Progress – Community profile of Welsh speakers by ward produced. Working with Age Connects Cardiff & Vale to produce resource directory of community based social activities, including those offering Welsh language
1.1.3 Systemau cynllunio a chomisiynu i gynnwys cyfeiriad at broffil ieithyddol eu cymunedau ac adlewyrchu hyn wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau	Fel yr uchod.	SW	2 Cynnydd - Fel yr uchod
1.1.4 Darparwyr cofrestredig i ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth ar y lefel o ddarpariaeth ddwyieithog, gan sicrhau bod y gofrestr staff yn cynnwys gwybodaeth am sgiliau yn y Gymraeg.	Rhywbeth wedi'i ysgrifennu yn y fanyleb gwasanaeth neu safonau achrediad i adlewyrchu Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.	Tîm Contractau a Datblygu AGGCC	3 Cynnydd - Mae datganiadau mewn perthynas â Chynllun yr Iaith Gymraeg a'r Strategaeth Mwy na Geiriau wedi'u rhoi yn y fanyleb gwasanaeth

			newydd i ddarparwyr gofal cartref.
1.1.5 Cynnig a chofnodi iaith ddewis y defnyddiwr a sicrhau y darperir gofal ieithyddol sensitif.	Mae angen cofnodi iaith yn yr Aseiad Integredig, cynlluniau gofal ac ar Care First fel mater o arfer.	SW	3 Cynnydd – mae adran benodol ar gyfer angen / dewis o ran yr iaith Gymraeg wedi'i rhoi yn y ddogfen Aseiad Integredig a'r system Care First, a fydd yn rhan o'r cynlluniau gofal unigol.
1.2.1 Cynyddu ymwybyddiaeth o effaith sensitifrwydd iaith ymysg staff TGCh sy'n cefnogi gwasanaethau cymdeithasol	Pob aelod o staff i ddilyn hyfforddiant ymwybyddiaeth gan gynnwys staff cymorth busnes a TGCh / comisiynu. Gwirfoddolwyr o'r grŵp staff i gyflawni cwrs 'Hyfforddi'r Hyfforddwr', a ddarperir gan Uned yr Iaith Gymraeg. Trafod gyda'r grŵp Care First	SW a'r rheolwr TG	1 Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith wedi'i gwblhau i reolwyr yn y tîm cymorth busnes. Heb ei gwblhau i'r tîm Care First eto.
1.2.2 Manylebau TGCh i gynnwys manylion o ddimensiwn yr iaith Gymraeg yn y gwasanaeth sy'n cael ei gomisiynu	Trafod gyda'r grŵp Care First	SW	3 Heb ei gyflawni eto.
1.2.3 Systemau data yn galluogi'r gwasanaeth i weithredu'n ddwyieithog e.e. paru staff/defnyddwyr gwasanaeth mewn rotas gofal; Mae systemau data ar y gweithlu yn cofnodi sgiliau iaith staff; angen / dewis iaith wedi'i gofnodi ar systemau data cleientiaid	<ul style="list-style-type: none"> • Systemau rota gofal yn paru staff sy'n siarad Cymraeg gyda defnyddwyr gwasanaeth. • DigiGov i gofnodi sgiliau Cymraeg staff • Angen / dewis iaith wedi'i gofnodi ar Care First. 	SW	3 Mae staff wedi cael eu hatgoffa i gofnodi sgiliau iaith ar DigiGov. Angen / dewis iaith defnyddiwr gwasanaeth wedi'i gynnwys ar system data Care First
1.3.2 Tîm caffael yr Awdurdod Lleol i ddilyn cyfarwyddyd y Comisiynydd Iaith ar wasanaethau comisiynu.	<ul style="list-style-type: none"> • Corfforaethol 	DHSSC a SW	2 Dim cyfarwyddyd?

Amcan Strategol 2: Adeiladu ar yr arfer gorau cyfredol, a chynllunio, comisiynu a darparu gofal yn seiliedig ar y 'Cynnig Actif'

Camau o'r Strategaeth	Camau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Cyfrifoldeb	Cwblhawyd erbyn
------------------------------	---	--------------------	------------------------

		Arweiniol	diwedd y flwyddyn
2.1.2 Darparu hyfforddiant staff ar y gwasanaeth 'Cynnig Actif' a sicrhau ei fod yn cael ei brif-ffrydio i raglenni sefydlu a hyfforddiant eraill ac ati	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen sefydlu'r Cyngor • Rhaglenni sefydlu gwasanaethau • Rhaglen Hyfforddiant Cenedlaethol 	. Swyddog Hyfforddi AD	3 Trafod gyda'r hyfforddwr
2.1.3 Cymryd camau ymarferol i weithredu'r gwasanaeth Cynnig Actif mewn ffordd gynyddol, gan ddechrau gyda'r gwasanaeth cyswllt cyntaf a gwasanaethau gwybodaeth. Cofnodi lle y gellir er mwyn ymateb.	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio Cynnig Actif i'r holl alwyr i Iechyd a Gofal Cymdeithasol trwy Cyswllt ac Asesu, ThG a phwyntiau mynediad ysbytai. • Cofnodi ymateb ar Care First 	SW	1 C2C sydd nawr yn gyfrifol am yr ymateb cyntaf ac maen nhw'n cynnig gwasanaeth dwyieithog Set data craidd yn cynnwys cwestiwn cynnig actif. Angen gwneud cynnydd o ran asesu angen.
2.2.1 Mapio darpariaeth a chapasiti cyfredol i gynnig gwasanaeth Cynnig Actif yn y gwasanaethau dementia	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai'n dod o'r proffil staff • Trafod gyda MHSOP • DHSSC Fersiwn Gymraeg o'r adnoddau asesu dementia craidd? 	SW	2 Angen trafod manylion gyda MHSOP
2.2.3 Cymryd camau i sicrhau bod gan y timau staff y capasiti i gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal asesiad sgiliau o'r holl dimau • Galluoedd cofnodi • Mynediad i hyfforddiant • Cyhoeddi asesiadau cofnodi/cynlluniau gofal yn Gymraeg 	SW	3 75% o asesiadau sgiliau o'r holl staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'u cwblhau.
2.3.1 Mapio darpariaeth a chapasiti cyfredol i ddarparu gwasanaeth Cynnig Actif mewn gwasanaethau blaenoriaeth eraill e.e. plant dan 5; therapi iaith a lleferydd	<ul style="list-style-type: none"> • 	SW	3 Parhaus
2.3.2 Penaethiaid gwasanaethau i ystyried ffyrdd priodol o ddarparu gwasanaethau Cymraeg (model darpariaeth) yn ôl capasiti, sgiliau iaith, parodrwydd a hyder staff i ddefnyddio'r iaith.	Arweinwyr gwasanaeth.	SW / arweinwyr gwasanaeth	3 I'w wneud ar ôl i'r proffil sgiliau staff gael ei gwblhau a'r strwythur Iechyd a Gofal Cymdeithasol gael ei derfynu
2.4.1 Hyrwyddwyr y Gymraeg yn yr Adran	<ul style="list-style-type: none"> • Esbonio rôl Hyrwyddwr y Gymraeg 	SS a AD	1

Gwasanaethau Cymdeithasol ac adrannau AD yr awdurdod lleol i rannu arfer gorau, yn enwedig gyda phenaethiaid gwasanaethau	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu strwythur y 'cydlynwyr' iaith yn y gwasanaeth i helpu i rannu gwybodaeth a hyrwyddo'r strategaeth. Cynrychiolydd ym mhob gwasanaeth / tîm 		Mae rhai cynrychiolwyr o grwpiau gwasanaeth yn yr adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cwblhau'r hyfforddiant 'hyfforddi'r hyfforddwy'r' a bydd yn gweithredu fel cynrychiolwyr i'w timau.
2.4.3 Hyrwyddwyr y Gymraeg ac adrannau AD yr awdurdod lleol i arwain menter 'iaith gofal yn y gweithle' staff i fagu hyder staff i siarad Cymraeg yn y gwaith	Staff gofal cartref yn arbennig	SS a AD	2 Hyfforddiant pwrpasol i'w drefnu ar gyfer staff gofal cartref. Angen cytuno ar strategaeth hyfforddi i grŵp staff ehangach.
2.4.4 Annog gwasanaethau cymdeithasol a staff gofal cymdeithasol i wisgo logo "Iaith Gwaith" a'u rhoi ar yr iwniformau y maen nhw'n eu rhoi i rai gweithwyr	Staff a darparwyr gofal cartref	Comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau gofal.	Parhaus o 1 Heb ei gyflawni. Heb ei ystyried eto.

Amcan Strategol 3: Cynyddu gallu'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg mewn meysydd blaenoriaeth ac ymwybyddiaeth iaith ymysg staff

Camau o'r Strategaeth	Camau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Cyfrifoldeb Arwain	Cwblhawyd erbyn diwedd y flwyddyn
3.1.1 Cynllunio'r gweithlu i gynnwys asesu anghenion iaith Gymraeg cymunedau a sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> Ysgrifennu yn holl gynlluniau'r gweithlu Sicrhau bod sefydliad staff yn cydymffurfio â safonau'r iaith Gymraeg e.e. 10% o siaradwyr Cymraeg Rhannu siaradwyr Cymraeg ar draws pob tîm i'n galluogi i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg. Nodi swyddi 'Cymraeg hanfodol' trwy'r broses asesu sgiliau. 	SW	1 75% o asesiadau sgiliau o'r holl staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'u cwblhau. Y cynllun gweithlu i'w gytuno ar ôl cwblhau strwythur y gyfarwyddiaeth.

	<ul style="list-style-type: none"> Mae angen i staff ddilysu a mewnbynnu sgiliau iaith ar DigiGov. 		
3.1.7 Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol i adrodd ar sgiliau Cymraeg yn eu gweithlu fel rhan o broses casglu data yr awdurdod lleol o ran eu perfformiad yng nghyd-destun y Cynllun Iaith	Mae angen amserlenni a strwythur ar gyfer monitro. Adroddiad 6 mis. Byddwn yn bwydo i mewn i'r adroddiad monitro blynyddol corfforaethol ac adroddiad Caerdydd Ddwieithog. Ffurio rhan o'r cynllun darparu gwasanaeth	SW	1 Ffurio rhan o'r cynllun corfforaethol ar gyfer 2015/16 Adolygiad 6 mis:
3.2.3 Holl adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol i weithredu yn unol â chanllawiau recriwtio'r comisiynydd iaith	<ul style="list-style-type: none"> Swyddi Cymraeg hanfodol Hysbysebion yn Gymraeg 	SW	2 Y cynllun gweithlu i'w gytuno ar ôl i strwythur y gyfarwyddiaeth gael ei gwblhau.

Amcan Strategol 4: Creu arweinwyr a fydd yn maethu ethos cefnogol yn y sefydliad, fel bod defnyddwyr a gofalwyr sy'n siarad Cymraeg yn derbyn gwasanaethau ieithyddol sensitif fel rhan naturiol o'u gofal.

Camau o'r Strategaeth	Camau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Cyfrifoldeb Arwain	Cwblhawyd erbyn diwedd y flwyddyn
4.1.1 Gofyn i arweinwyr gwleidyddol a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i gyhoeddi datganiad yn nodi: Eu dymuniad i sicrhau bod sensitifrwydd tuag at yr iaith Gymraeg yn cael ei adlewyrchu ym mhob rhan o'u sefydliad i sicrhau gofal o ansawdd a gwasanaethau effeithiol a phwysigrwydd ymateb i anghenion Cymraeg defnyddwyr o ran asesu a gofalu am ddefnyddwyr	Datganiad ar y cyd gan Sian Walker ac aelod Cabinet y Gyfarwyddiaeth trwy e-bost neu gylchlythyr at bob aelod o staff.	SW / Susan Ellsmore	1 Cyflawnwyd hyn ym mlwyddyn 1. Angen cyhoeddi datganiad arall gyda'r Cynghorydd Susan Elsmore, sydd wedi cymryd drosodd gan y Cynghorydd Thomas.
4.1.2 Cytuno ar y camau y byddant yn eu cymryd i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn sensitif ac yn briodol	Sian Walker a'r Cynghorydd Thomas i gytuno	SW/HT	1 Angen rhywbeth tebyg nawr i'r Cynghorydd Elsmore
4.1.3 Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau		SW?	1

Cymdeithasol i roi trefniadau ar waith i fonitro sut mae'r Fframwaith Strategol Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu rhoi ar waith.			
4.1.4 Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol i gyhoeddi Fframwaith Strategol a Chynllun Gweithredu yr Iaith Gymraeg i'r gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, comisiynu a chontractio		SW	2
4.1.5 Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddynodi uwch swyddog fel Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg yn yr adran	Susan Schelewa, Rheolwr Gweithredol	SW	1 Cyflawnwyd
4.1.6 Rhaglen hyfforddiant arweinyddiaeth i gynnwys rhan ar effaith sensitifrwydd iaith ar effeithiolrwydd gofal, fel rhan allweddol o unrhyw waith cynllunio ac fel cyfrifoldeb y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg (5.1.3)	<ul style="list-style-type: none"> • Adran hyfforddiant • Hyfforddiant PI 	SW	1 Parhaus. Angen cwblhau gwaith gyda'r rheolwr hyfforddi

Amcan strategol 5: Dylunio a darparu rhaglenni dysgu a datblygu addysg sy'n adlewyrchu cyfrifoldeb gwasanaethau i gynllunio a darparu gwasanaethau yn Gymraeg.

5.2.2 Y Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydliadau Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod egwyddorion ymwybyddiaeth ieithyddol a'r gwasanaeth 'Cynnig Actif' yn ffurfio rhan o'r holl raglenni sefydlu.		Yr holl ddarparwyr gofal gan gynnwys cartref gofal	Parhaus
--	--	--	---------

<p>5.2.3 Rhaglenni hyfforddi a datblygu staff i gynyddu capasiti staff i gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Dechrau drwy fagu hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio Cymraeg yn y gwaith a chodi ymwybyddiaeth ymysg staff h.y. rheolwyr rheng flaen a rheolwyr tîm</p>	<p>Cyrsiau hyfforddi gwella sgiliau iaith Ymwybyddiaeth i bob aelod o staff ond gyda grwpiau blaenoriaeth e.e. C&A, ysbytai a rheolwyr</p>	<p>SW</p>	<p>1 Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith wedi'i gwblhau i'r mwyafrif o reolwyr. Cynllun i ehangu'r cwmpas ar gyfer 2015/16</p>
--	--	-----------	---

ATODIAD II – Aseidiadau Swyddi Rheng Flaen

Aseidiadau Ieithyddol Ebrill 2014 – Mawrth 2015	
Cyfarwyddiaethau	Timau
Gwasanaethau Plant	Y Gwasanaeth Maethu
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	Llyfrgell a Chanolfan Gymunedol Pen-y-lan Dysgu yn y Gymuned i Oedolion C2C Y Gwasanaeth Larwm Cymunedol Gwasanaethau Concierge Gwasanaethau Llyfrgell (Pob Llyfrgell) Tŷ gwarchod
Gwasanaethau Democrataidd	Caerdydd Ddwieithog Cyfathrebu a Chyfryngau Gwasanaethau Etholiadol Tîm y We
Addysg a Dysgu Gydol Oes	Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Derbyn i Ysgolion
Yr Amgylchedd	Goruchwylwyr Casglu Gwastraff Strategaeth Gwastraff
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Tîm gwaith cymdeithasol Ysbyty Prifysgol Cymru Tîm gwaith cymdeithasol Ysbyty Llandochoau Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Gwasanaeth Gofal yn y Cartref Gwasanaethau Dydd Anableddau Dysgu - Y Dwyrain Gwasanaethau Dydd Anableddau Dysgu – Y Gorllewin Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn

	<p>Gwasanaeth Cyfarpar ar y Cyd Gwasanaeth Allgymorth Iechyd Meddwl Tîm Alcohol a Chyffuriau Cymunedol / Tîm Digartrefedd Adran Hyfforddi (gwasanaethau oedolion a phlant) Tîm Asesu Oedolion. Tîm perfformiad Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Cymorth Busnes Tîm Dyletswydd Argyfwng</p>
Adnoddau Dynol	Gweithwyr Caerdydd
Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant	<p>Aelodaeth Caerdydd Actif Tîm Cymorth Busnes Castell Caerdydd Addysg a Digwyddiadau Castell Caerdydd Croesawyr Ymwelwyr Castell Caerdydd Canolfan Hamdden y Tyllgoed Canolfan Hamdden Maendy Canolfan Hamdden Pentwyn Ysgol Farchogaeth Canolfan Hamdden Pen-y-lan Canolfan Hamdden y Gorllewin</p>

Atodiad III - Hyfforddiant yr Iaith Gymraeg

Adroddiad Dysgwyr Cymraeg 2014/2015	
Mynediad	
Gwasanaethau Plant	1
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	6
Gwasanaethau Democrataidd	4
Addysg a Dysgu Gydol Oes	3
Yr Amgylchedd	4
Cyllid	1
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	2
Gwasanaethau Pobl AD	3
Gwasanaethau Cyfreithiol	2
Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant	4
Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth	3
Sylfaenol	
Gwasanaethau Plant	1
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	3
Addysg a Dysgu Gydol Oes	1
Cyllid	2
Gwasanaethau Pobl AD	3
Gwasanaethau Cyfreithiol	1
Partneriaethau a Chanolbwyntio ar Ddinasyddion	1
Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant	4

Canolradd	
Gwasanaethau Plant	2
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	4
Uwch	
Addysg a Dysgu Gydol Oes	1
Hyfedredd	
Gwasanaethau Plant	1
Gwasanaethau Democrataidd	1
Cwrs Blasu Cymraeg	27
Cyfanswm Dysgwyr	85
Cyfanswm Gwariant ar Ddysgwyr	£9,247.00
Ymwybyddiaeth Iaith	40

ATODIAD IV – Sgiliau Iaith Gymraeg

Gallu o ran yr iaith Gymraeg yn ôl Gwasanaeth	
GWASANAETH	Cyfanswm
NEWID A GWELLA	6
GWASANAETHAU PLANT	17
CYMUNEDAU, TAI A GWASANAETHAU CWSMERIAID	32
GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD	17
DATBLYGU ECONOMAIDD	9
ADDYSG A DYSGU GYDOL OES	44
YR AMGYLCHEDD	13
CYLLID	14
IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL	24
GWASANAETHAU POBL AD	6
GWASANAETHAU CYFREITHIOL	2
ADNODDAU	4
CHWARAEON, HAMDDEN A DIWYLLIANT	29
CYNLLUNIO STRATEGOL, PRIFFYRDD, TRAFFIG A THRAFNIDIAETH	4
Cyfanswm	
221	

Gallu o ran yr iaith Gymraeg yn ôl Lleoliad *	Cyfanswm
NEUADD Y DDINAS	12
NEUADD Y SIR	71
ADEILAD GLOBAL	11
Tŷ WILLCOX	13
Arall	114
Cyfanswm	221

*Oherwydd y niferoedd sydd wedi'u lleoli mewn rhai lleoliadau, nid ydym yn gallu cyhoeddi'r data oherwydd gallai unigolion gael eu henwi.

Gallu o ran yr iaith Gymraeg yn ôl Gradd	Cyfanswm
GRADD	Nifer
CE2	6
EAI	3
EDPSY A	4
GRADDFA 1	8
GRADDFA 2	2
GRADDFA 3	22
GRADDFA 4	17
GRADDFA 5	18
GRADDFA 6	35
GRADDFA 7	35
GRADDFA 8	25
GRADDFA 9	14
GRADDFA 10	9
JNC Prif Swyddog (RhG+)	7
Arall	1
Ieuencid a Chymuned	2
ATHRO	13
Cyfanswm	221

ATODIAD V – Cydlynwyr a Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg

Cyfarwyddiaeth	Gwasanaeth	Cydlynnydd	Hyrwyddwr
PRIF WEITHREDWR	Y SWYDDFA GABINET		
	GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD	Dylan Hughes Rhian Phillips Rhian Temple	Ffion Gruffudd Susan Edwards Timothy Gordon
	DATBLYGU ECONOMAIDD	Rhian Jones	Heledd Williams
GWEITHREDIADAU (Y GYFARWYDDIAETH)	GWASANAETHAU PLANT	Karen Wilkinson	Ingrid Masmeyer
	CYMUNEDAU, TAI A GWASANAETHAU CWSMERIAID	Mair Newton / Carole Morgan Huw Parry-Evans / Leanne Vaughan Gareth Pierce	Elisabeth Morris Rachel Bishop Jane Thomas
	ADDYSG A DYSGU GYDOL OES	Nicola Hayward	Avril Hooper
	YR AMGYLCHEDD	Bernadette Lewis / Aled Evans Steve Bumford Alison James	Tara King Dave Smith
	IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL	Jackie Burns	Susan Schelewa

	CHWARAEON, HAMDDEN A DIWYLLIANT	Alison James Daniel Allcock	Roger Hopwood
	CYNLLUNIO STRATEGOL, PRIFFYRDD, TRAFFIG A THRAFNIDIAETH	Kadie Irish	Shaun Reville
	CYLLID	Iestyn Roberts	Ian Allwood
	GWASANAETHAU POBL AD	Olwen Medi	Lynne David
	GWASANAETHAU CYFREITHIOL	Lisa Michael	Ian Allwood
ADNODDAU (Y GYFARWYDDIAETH)	ADNODDAU	Jessica Pritchard Mike Reilly	Julie Jones

Atodiad VI

C2C
Arolygon Cymraeg
C1-C3 2014/15



Bodddhad Cwsmeriaid - Cymraeg

Arolygon a gwblhawyd yn Chwarter 1 - 20

Yn gyntaf, pa mor fodlon oeddech chi ar yr amser y gwnaethoch ei ddisgwyl cyn i ni ateb eich galwad?

Bodlon iawn	70.0%	Anfodlon	5.0%
Bodlon	25.0%	Anfodlon iawn	0%

A wnaeth y person a wnaeth ateb eich galwad eich cyfarch mewn ffordd briodol?

DO	100%	Naddo	0%
Ddim yn gwybod	0%		

Beth oedd eich barn ar agwedd a gwybodaeth yr unigolyn a ddeliodd â'ch galwad?

Agwedd

Da iawn	80.0%	Gwael	0%
Da	20.0%	Gwael iawn	0%

Gwybodaeth

Da iawn	70.0%	Gwael	5.0%
Da	25.0%	Gwael iawn	0%

A ddywedwyd wrthy ch ba gamau a fyddai'n cael eu cymryd ar ôl eich galwad?

DO	95.0%	NADDO	0%
----	-------	-------	----

A wnaeth Cysylltu â Chaerdydd ddatrys eich ymholiad?

DO	92.0%	NADDO	0%
----	-------	-------	----

Dywedodd 92.0% o gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg y cafodd eu hymholiadau eu datrys gan Cysylltu â Chaerdydd heb gael eu trosglwyddo i unrhyw le

Os 'Naddo', oedd staff yn gallu eich cysylltu â'r person cywir i ddelio â'ch ymholiad?

OEDD	85.0%	NAC OEDD	15.0%
------	-------	----------	-------

Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech chi â'r gwasanaeth a gawsoch gan Cysylltu â Chaerdydd?

Roedd 100.0% o gwsmeriaid yn fodlon â llinell Gymraeg Cysylltu â Chaerdydd yn ystod Chwarter 1

Bodlon iawn	75.0%	Anfodlon	0%
Bodlon	25.0%	Anfodlon iawn	0%

Lle welsoch chi ein rhif wedi'i hysbysebu?

Gwefan / Mewnrwyd y Cyngor	55.0%	Poster	5.0%
Bil / Llythyr	25.0%	Arall	15.0%

Allwch chi feddwl am rywbeth allwn ni ei wneud i wella'n gwasanaeth?

Mae'r cwsmer yn meddwl y dylid hyrwyddo'r Ilinell Gymraeg yn well e.e. rhoi'r rhif mewn lliw gwahanol i'r rhif Saesneg ar ffurflenni ac ati.

Agor dros y penwythnos

Mae'r cwsmer yn dweud ei fod yn ffonio o dro i dro ac yn cael gwybod bod dim siaradwr Cymraeg ar gael - mae'n anhapus gyda hyn.

Dim o gwbl

Bodddhad Cwsmeriaid - Cymraeg

Arolygon a gwblhawyd yn Chwarter 2 - 20

Pa mor fodlon oeddech chi ar yr amser y gwnaethoch ei ddisgwyl cyn i ni ateb eich galwad?

Bodlon iawn	64%	Anfodlon	0%
Bodlon	36%	Anfodlon iawn	0%

A wnaeth y person a wnaeth ateb eich galwad eich cyfarch mewn ffordd briodol?

Do	100%	Naddo	0%
Ddim yn gwybod	0%		

Beth oedd eich barn ar agwedd a gwybodaeth yr unigolyn a ddeliodd â'ch galwad?

Agwedd

Da iawn	70%	Gwael	0%
Da	30%	Gwael iawn	0%

Gwybodaeth

Da iawn	70%	Gwael	5%
Da	25%	Gwael iawn	0%

A ddywedwyd wrthy ch ba gamau a fyddai'n cael eu cymryd ar ôl eich galwad?

Do	80%	Naddo	10%
Ddim yn gwybod	10%		

A wnaeth Cysylltu â Chaerdydd ddatrys eich ymholiad?

Do	90%	Naddo	10%
----	-----	-------	-----

Dywedodd 90% o gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg y cafodd eu hymholiadau eu datrys gan Cysylltu â Chaerdydd heb gael eu trosglwyddo i unrhyw le

Os 'Naddo', oedd staff yn gallu eich cysylltu â'r person cywir i ddelio â'ch ymholiad?

Oedd	100%	Nac oedd	0%
------	------	----------	----

Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech chi â'r gwasanaeth a gawsoch gan Cysylltu â Chaerdydd?

Roedd 100% o gwsmeriaid yn fodlon â Ilinell Gymraeg Cysylltu â Chaerdydd yn ystod Chwarter 2

Bodlon iawn	75%	Anfodlon	0%
-------------	-----	----------	----

Bodlon	25%	Anfodlon iawn	0%
--------	-----	---------------	----

Lle welsoch chi ein rhif wedi'i hysbysebu?

Gwefan / Mewnrwyd y Cyngor	35%	Bagiau / Bin	5%
Bil / Llythyr	30%	Llais y Ddinas	5%
Arall	5%	Ddim yn Cofio	15%

Allwch chi feddwl am rywbeth allwn ni ei wneud i wella'n gwasanaeth?

Na. Mae gallu siarad yn Gymraeg yn gwneud pethau'n haws.

Wedi gorfod aros am hir o'r blaen cyn cael ateb. Cyfnodau lle nad oedd siaradwr Cymraeg ar gael.

na, bodlon iawn

na, popeth yn broffesiynol iawn. .

mwyr o bobl Gymraeg ym mhob adran, yn enwedig ar y ffôn. .

Bodddhad Cwsmeriaid - Cymraeg

Arolygon a gwblhawyd yn Chwarter 3 - 20

Pa mor fodlon oeddech chi ar yr amser y gwnaethoch ei ddisgwyl cyn i ni ateb eich galwad?

Bodlon iawn	60%	Anfodlon	0%
Bodlon	40%	Anfodlon iawn	0%

A wnaeth y person a wnaeth ateb eich galwad eich cyfarch mewn ffordd briodol?

Do	95%	Naddo	0%
Ddim yn gwybod	5%		

Beth oedd eich barn ar agwedd a gwybodaeth yr unigolyn a ddeliodd â'ch galwad?

Agwedd

Da iawn	70%	Gwael	0%
Da	30%	Gwael iawn	0%

Gwybodaeth

Da iawn	55%	Gwael	0%
Da	45%	Gwael iawn	0%

A ddywedwyd wrthy'ch pa gamau a fyddai'n cael eu cymryd ar ôl eich galwad?

DO	80%	NADDO	5%
Ddim yn gwybod	15%		

A wnaeth Cysylltu â Chaerdydd ddatrys eich ymholiad?

Do	100%	NADDO	0%
----	------	-------	----

Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech ar y gwasanaeth a gawsoch gan Cysylltu â Chaerdydd?

Roedd 100% o gwsmeriaid yn fodlon â gwasanaeth ffôn Cysylltu â Chaerdydd yn ystod Chwarter 3

Bodlon iawn	80%	Anfodlon	0%
Bodlon	20%	Anfodlon iawn	0%

Lle welsoch chi ein rhif wedi'i hysbysebu?

Gwefan / Mewnrwyd y Cyngor	35%	Ffrindiau / Teulu	5%
Bil / Llythyr	30%	Taflen	5%
Llyfr Ffôn	10%	Arall	15%

Allwch chi feddwl am rywbeth allwn ni ei wneud i wella'n gwasanaeth?

Dim - ond angen aros yn hir i berson ateb yn Gymraeg

Wedi gorfod cael galwad yn ôl yn Gymraeg gan fod neb ar gael pan ffoniodd y Cwsmer.

Na - hapus iawn bod yr alwad wedi cael ei ateb yn gyflym a bod rhif y lein Gymraeg ar y wefan ar bwys yr un Saesneg.

